



Arsyllfa **Wledig** Cymru  
Wales **Rural** Observatory

## AROLWG GWASANAETHAU

Mai 2008

Adroddiad Ymchwil 15



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu  
Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi  
mewn Ardaloedd Gwledig  
The European Agricultural Fund for  
Rural Development: Europe Investing In  
Rural Areas



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

# Cynnwys

|  |           |
|--|-----------|
| <b>Cynnwys</b>                                   | <b>1</b>  |
| <b>ADRAN 1 RHAGYMDRODD A DULLIAU</b>             | <b>3</b>  |
| 1.1 Rhagymadrodd                                 | 3         |
| 1.2 Dulliau                                      | 3         |
| 1.3 Demograffeg yr Ymatebwyr                     | 4         |
| 1.4 Strwythur yr adroddiad                       | 5         |
| 1.5 Categoriâu'r Boblogaeth                      | 6         |
| <b>ADRAN 2 ANSAWDD Y GWASANAETHAU</b>            | <b>9</b>  |
| 2.1 Rhagymadrodd                                 | 9         |
| 2.2 Siopau                                       | 9         |
| 2.3 Banciau a Chymdeithasau Adeiladu             | 12        |
| 2.4 Tafarndai                                    | 13        |
| 2.5 Tai Bwyta a Lleoedd i Fwyta                  | 15        |
| 2.6 Gwasanaethau Meddygol                        | 17        |
| 2.7 Ysgolion                                     | 19        |
| 2.8 Amrywiol                                     | 20        |
| <b>ADRAN 3 NEWID YN NARPARIAETH GWASANAETHAU</b> | <b>23</b> |
| 3.1 Rhagymadrodd                                 | 23        |
| 3.2 Cludiant cyhoeddus                           | 23        |
| 3.3 Tai fforddiadwy                              | 24        |
| 3.4 Yr Heddlu a Phlisma                          | 26        |
| 3.5 Bwyd Lleol ac Organig                        | 28        |
| 3.6 Marchnadoedd Ffermwyr                        | 29        |
| 3.7 Ysbryd Cymunedol                             | 29        |
| <b>ADRAN 4 ARGAELEDD GWASANAETHAU</b>            | <b>33</b> |
| 4.1 Rhagymadrodd                                 | 33        |
| 4.2 Mannau Addoli                                | 33        |
| 4.3 Neuaddau Pentref a Chanolfannau Cymunedol    | 33        |
| 4.4 Parcia a Chaeau chwarae                      | 34        |
| 4.5 Gweithgareddau Cymunedol                     | 34        |
| 4.6 Telathrebu                                   | 35        |
| 4.7 Llyfrgelloedd                                | 36        |

|                  |   |           |
|------------------|---|-----------|
| <b>ADRAN 5</b>   | <b>MANNAU CYHOEDDUS A'R AMGYLCHEDD</b>    | <b>38</b> |
| 5.1              | Rhagymadrodd                              | 38        |
| 5.2              | Mannau Cyhoeddus                          | 38        |
| 5.3              | Chwaraeon a Gweithgareddau                | 39        |
| 5.4              | Ailgylchu                                 | 39        |
| 5.5              | Canllawiau Tai                            | 41        |
| 5.6              | Rhandiroedd                               | 41        |
| 5.7              | Hysbysfwrdd, Cylchlythyr a Gwefan         | 41        |
| <b>ADRAN 6</b>   | <b>LLES</b>                               | <b>43</b> |
| 6.1              | Rhagymadrodd                              | 43        |
| 6.2              | Cyngor a Chymorth Lles                    | 43        |
| 6.3              | Cyfleusterau Lles                         | 44        |
| 6.4              | Safon Byw                                 | 46        |
| <b>ADRAN 7</b>   | <b>POBL WAHANOL, GWASANAETH GWAHANOL?</b> | <b>48</b> |
| 7.1              | Rhagymadrodd                              | 48        |
| 7.2              | Darpariaeth Gwasanaethau                  | 49        |
| <b>ADRAN 8</b>   | <b>AM EICH CYNGOR</b>                     | <b>52</b> |
| 8.1              | Rhagymadrodd                              | 52        |
| <b>ATODIADAU</b> |   | <b>54</b> |
|                  | Atodiad 1                                 | 54        |
|                  | Atodiad 2                                 | 64        |
|                  | Atodiad 3                                 | 67        |

# ADRAN 1 RHAGYMDRODD A DULLIAU

## 1.1 Rhagymadrodd

1.1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o arolwg Arsyllfa Wledig Cymru o'r gwasanaethau yn y Gymru wledig, 2007. Mae'r ymchwil yn dilyn arolwg tebyg a gynhaliwyd yn 2004 (*Arolwg o Wasanaethau Gwledig yng Nghymru*, AWC: 2005), a oedd yn ceisio dyblygu arolwg o 1996 (Higgs a White, 2000). Yn yr un modd â'r ddau arolwg blaenorol, y Cyngor Tref neu Gymuned yw'r lefel ar gyfer y dadansoddiad, a chafodd yr holiaduron eu hanfon at Glerc y Dref neu'r Gymuned.

1.1.2 Ceisiodd yr arolwg cyfredol edrych ar argraffiadau ynghylch a yw'r ddarpariaeth gwasanaethau yn ddigonol, ynghyd ag argraffiadau o'r newid yn y gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn yr ardal leol; gofynnodd y cwestiynau i'r ymatebydd ystyried y newid dros y pum mlynedd diwethaf. Cafodd yr holiadur ei ddylunio i roi cyd-destun a dealltwriaeth gyfoethocach o sut mae cymunedau'n meddwl am y ddarpariaeth gwasanaethau sydd ganddynt a'r materion sy'n gysylltiedig â hynny.

1.1.3 Rhannwyd yr holiadur yn saith adran: ansawdd y gwasanaethau, newid yn ddarpariaeth gwasanaethau, argaeledd gwasanaethau, lleoedd cyhoeddus a'r amgylchedd, lles, pobl wahanol, gwasanaethau gwahanol ac am eich cyngor chi. Bydd y strwythur yn cael ei ddyblygu yng nghynllun yr adroddiad hwn.

1.1.4 Roedd yr holiadur cyfredol yn wahanol i holiadur 2004 o ran y cwestiynau a ofynnwyd, yn benodol drwy gynnwys mwy o gwestiynau agored. Y rheswm am y gwahaniaeth hwn oedd bod ffynhonnell arall o ddata ar gael am ddarparu

gwasanaethau yng Nghymru. Y data hwn gan Point X yw'r ffynhonnell data mwyaf

cynhwysfawr a chyfredol ar sefyllfa amrywiaeth mawr o wasanaethau, gan ganiatáu i'r holiadur symud y tu hwnt i ddata meintiol tuag at werthusiad mwy ansoddol o ddarpariaeth ac argaeledd gwasanaethau. Mae hyn yn golygu ein bod yn gallu ymholi mwy am ddealltwriaeth ac anghenion beunyddiol trigolion ardaloedd y Cyngor Tref neu Gymuned, a bod gennym ddata hefyd i ddangos y gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar gyfer yr ardaloedd gwahanol. Defnyddir y data hwn drwy'r adroddiad i gyd er mwyn cynnig cymhariaeth a phwynt cyfeirio ar gyfer data'r holiadur.

## 1.2 Dulliau

1.2.1 Anfonwyd holiadur Cymraeg a Saesneg, ynghyd â llythyr cyflwyno i esbonio diben yr ymchwil, beth yw Arsyllfa Wledig Cymru a pham roedd yn bwysig cyfrannu. Dywedodd y llythyr hefyd fod Un Llais Cymru, sef y corff sy'n cynrychioli Cyngorau Tref a Chymuned yng Nghymru, yn cefnogi'r ymchwil. Dangosir yr holiadur yn Atodiad Un, ac mae'r llythyr cyntaf a'r ddau lythyr atgoffa yn Atodiad Dau. Cafodd y gyfres gyntaf o holiaduron ei hanfon ym mis Gorffennaf 2007, ac anfonwyd dau lythyr atgoffa yn y misoedd canlynol.

1.2.2 Cymerai'r holiadur ryw 30 munud i'w lenwi. Seiliwyd llawer o'r cwestiynau ar arolwg 2004, gan eu haddasu i gyd-fynd â'r ffynhonnell data newydd sydd ar gael bellach. Roedd y cwestiynau'n ymddiddori yn argraffiadau o wasanaethau ac argraffiadau o newid yn y cymunedau lleol. Cymerwyd bod ymatebion y clerc yn nodweddiadol o deimladau'r ardal leol, yn

ogystal ag ymwybyddiaeth uwch o'r materion lleol oherwydd y swydd. Er hynny, rhaid dweud yma nad yw rhai o'r clercod yn byw yn ardal y Cyngor Cymuned, er bod ganddyn nhw wybodaeth ymarferol drylwyr o'r materion sy'n codi yno. Llanwyd rhai o'r holiaduron gan y cyngor, sy'n golygu eu bod yn waith nifer o bobl. Roedd hyn yn golygu bod rhwyfant o drafod wedi bod dros yr ymatebion, yn ôl pob tebyg, sydd wedi cryfhau dilysrwydd yr ymatebion hyn, wrth gwrs.


1.2.3 Ar gais Un Llais Cymru, anfonwyd holiadur at yr holl Gynghorau Tref neu Gymuned, gan rannu'r data yn ddata trefol a gwledig ein hunain. Hefyd, roedd yna gwestiwn a ofynnodd i'r ymatebwyr ddsbarthu'r ardal eu hunain, rhwng trefol, trefol yn bennaf, gwledig yn bennaf a gwledig. Cafwyd cyfanswm o 448 o ymatebion, o 735<sup>1</sup> o Gynghorau Tref neu Gymuned yng Nghymru gyfan (trefol a gwledig).

1.2.4 O ddefnyddio'r diffiniad 9+3 o'r Gymru wledig<sup>2</sup>, mae yna 569 o Gynghorau Tref a Chymuned yn y Gymru wledig, a chawsom 323 o ymatebion gan y rhain (56.7%). Roedd hynny'n golygu ein bod wedi cael 125 o ymatebion o ardaloedd eraill. Cawsom gyfradd ymateb o 61% o Gymru gyfan, a chyfradd ymateb o 57% o'r Gymru wledig.

1.2.5 Mae Map 1 yn dangos dosbarthiad yr ymatebion. O'r map, gallwn weld bod yr ymatebion yn cynrychioli dosbarthiad ledled y Gymru wledig.

<sup>1</sup> Ceir 868 o gymunedau yng Nghymru, y mae gan 735 ohonynt gyngor ar hyn o bryd, yn ôl Whitaker's Almanack 2003 (SYG, 2008)

<sup>2</sup> Mae hyn yn golygu ein bod yn cymryd bod yna 9 Awdurdod Lleol sy'n wledig eu hardal a bod rhannau o 3 Awdurdod Lleol yn lled-wledig, gan ddefnyddio dosbarthiadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Y 9 Awdurdod Lleol sy'n wledig yw Powys, Sir Ddinbych, Sir Fynwy, Conwy, Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Y tri awdurdod lled-wledig yw Sir y Fflint, Wrecsam a Bro Morgannwg.



### 1.3 Demograffeg yr Ymatebwyr

1.3.1 Clercod y Cynghorau Tref neu Gymuned yw aelodau gweinyddol y cyngor. Ceir 868 o Gynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru, sy'n cynrychioli'r haen o lywodraeth sydd agosaf at y bobl. Mae'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu yn amrywio o aneddiadau bach gwledig i drefi mawr, er bod mwy o gymunedau gwledig nag o rai trefol. Nid yw pob un o'r clercod y Cynghorau Tref neu Gymuned yn byw yn ardal y Cyngor Cymuned, er y byddent yn ymwybodol iawn o'r materion allweddol sy'n wynebu'r ardal hyd yn oed pe na baent yn byw yno.

1.3.2 Mae mwy o'r clercod a ymatebodd yn wrywod (153) na benywod (113) ac yn byw yn yr ardal y maent yn glerc Cyngor Tref neu Gymuned iddi, gyda 229 o'r ymatebwyr yn byw yn ardal y Cyngor Cymuned a 59 heb fod yn byw yno (nid atebwyd y cwestiwn hwn gan rai). Mae'n anos cyfleu oedran y clercod gan fod yr ymatebwyr heb roi atebion ar ffurf rhif yn unig (er enghraifft, 65 oed + a 35 - 69 oed, yn achos holiaduron a lenwyd gan

gynghorau cyfan). Er hynny, mae'n ymddangos bod yr oedran cyfartalog yn fwy na 60, (mae yna eithafion wrth gwrs; 23 oed oedd yr ifancaf, ac 88 oed oedd yr hynaf. Mae'r tabl isod yn dangos oedran y clerod mewn categorïau.

**Tabl 1.1 Oedran Clerod Trefi neu Gymunedau**

|                      | Nifer | Dilys % | Cyfanswm % |
|----------------------|-------|---------|------------|
| <i>Dim ymateb</i>    | 95    |         | 29.4%      |
| Llai na 30 oed       | 3     | 1.3%    | 0.9%       |
| 30 i 40 oed          | 12    | 5.3%    | 3.7%       |
| 40 i 50 oed          | 36    | 15.8%   | 11.1%      |
| 50 i 60 oed          | 55    | 24.1%   | 17.0%      |
| 60 i 70 oed          | 76    | 33.3%   | 23.5%      |
| 70 i 80 oed          | 33    | 14.5%   | 10.2%      |
| 80 i 90 oed          | 3     | 1.3%    | 0.9%       |
| Dim Oedran Penodol*  | 10    | 4.4%    | 3.1%       |
| Cyfanswm a Ymatebodd | 228   | 100.0%  | 70.6%      |
| Cyfanswm yr Arolwg   | 323   |         | 100.0%     |

1.3.3 Gofynnodd yr arolwg i'r ymatebydd ddsbarthu'r ardal yr oedd yn byw ynddi ei hunan; p'un a oedd yn ardal drefol, drefol yn bennaf, wledig yn bennaf neu wledig. Gan ein bod yn defnyddio'r diffiniad 9+3 yma, mae hyn yn golygu ein bod yn dosbarthu 323 o ymatebion allan o 448 fel rhai gwledig (72%). Er hynny, o ddefnyddio hunan-ddosbarthiad y clerod, mae'r ganran wledig yn uwch (80.6%). Mae'r gwahaniaeth hwn yn codi am fod ardaloedd gwledig i'w cael mewn wardiau sydd yn ein dosbarthiad ni yn drefol; er enghraifft ardal Gwyr yn Abertawe. Mae'r tabl isod yn dangos amledd a chanrannau'r hunan-ddosbarthiad.

**Tabl 1.2 Hunan-ddosbarthiad yr ardaloedd**

|                   | Amledd | Canran |
|-------------------|--------|--------|
| Gwledig           | 244    | 54.5   |
| Gwledig yn Bennaf | 117    | 26.1   |
| Trefol yn Bennaf  | 70     | 15.6   |
| Trefol            | 8      | 1.8    |
| Yn eisiau         | 9      | 2.0    |
| Cyfansymiau       | 439    | 98.0   |

1.3.4 Seilir yr adroddiad hwn ar ddadansoddiad sy'n defnyddio'r diffiniad o wledig sydd wedi'i fabwysiadu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gan na fyddai'r hunan-ddosbarthiad yn drylwyr, nac yn bosibl i'w ddyblygu ar gyfer ymchwil yn y dyfodol. Mae'r meini prawf ar gyfer cynnwys ardal fel un 'wledig' wedi'u trafod yn adran 1.2.4 uchod.

## 1.4 Strwythur yr adroddiad

1.4.1 Cyflwynir canfyddiadau'r arolwg yn y penodau canlynol, sy'n adlewyrchu strwythur yr holiadur:

1. Ansawdd y Gwasanaethau
2. Newid yn Narpariaeth Gwasanaethau
3. Argaeledd Gwasanaethau
4. Mannau Cyhoeddus a'r Amgylchedd
5. Lles
6. Pobl wahanol, gwasanaethau gwahanol?
7. Am eich cyngor chi

1.4.2 mae'r adroddiad hwn yn dwyn ynghyd ddwy ffynhonnell wahanol ar gyfer data am ddarparu gwasanaethau gwledig yng Nghymru; data'r holiadur a data Point X. I ddod â'r ddwy ynghyd, roeddem wedi grwpio'r ymatebion i'r holiadur yn ôl maint y boblogaeth, gan ddilyn adroddiad 2004. Mae hyn yn golygu ein bod wedyn yn gallu grwpio data Point X yn ôl yr un categorïau poblogaeth, a defnyddio'r ddwy ffynhonnell gyda'i gilydd.

1.4.3 Mae Adran 2, Ansawdd y Gwasanaethau, yn rhoi golwg gyffredinol ar y gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn y Gymru wledig. Mae'r data'n cael ei gyflwyno ar gyfer y cyfan o'r Gymru wledig (o'r holiadur), cyn ei dorri i mewn i gategorïau gwahanol o boblogaeth er mwyn cynnwys gwybodaeth Point X.

1.4.4 Mae Adran 3, newid yn Narpariaeth Gwasanaethau, yn cynnwys data meintiol

ac ansoddol, gan gyfuno'r ddau i roi disgrifiad manwl o agweddau cymunedau at newid yn y gwasanaethau sy'n cael eu darparu. Mae'r adran hon yn edrych ar faterion megis cludiant cyhoeddus, tai fforddiadwy, plismona, ysbryd cymunedol ac argaeledd bwyd lleol neu organig a marchnadoedd ffermwyr.

1.4.5 Mae Adran 4, Argaeledd Gwasanaethau, yn edrych ar y gwasanaethau penodol sydd ar gae, eu niferoedd yn y cymunedau lleol ac i ba ddibenion y maen nhw'n cael eu defnyddio. Mae'r syniad o gymuned yn ganolog i'r cwestiwn hwn, ac wrth edrych ar y gwahanol wasanaethau sydd ar gael mae sut y maent yn cael eu defnyddio a pha mor ganolog ydynt i'r gymuned yn dod i'r amlwg hefyd.

1.4.6 Mae Adran 5, Mannau Cyhoeddus a'r Amgylchedd, yn wahanol i gwestiynau 2004 er mwyn cynnwys y materion hyn yn yr adroddiad. Yma trafodir darparu manau cyhoeddus, sut y maent yn cael eu defnyddio a'u pwysigrwydd ym marn aelodau'r gymuned, gan ddefnyddio disgrifiadau ansoddol a meintiol. Mae dulliau ar gyfer cadw'r amgylchedd yn dod yn fwyfwy pwysig, ac mae gan yr adran hon fanylion gwahanol gynlluniau ailgylchu ar gyfer yr ardaloedd lleol.

1.4.7 Mae Adran 6, Lles, yn cyflwyno gwybodaeth am ddarpariaeth ac argaeledd lles a systemau lles yn yr ardal leol. Mae'r adran hon yn gofyn be gall pobl fynd i gael gwybodaeth ac am y gwahanol

gyfleusterau sydd ar gael yn yr ardal. Unwaith eto, yn hytrach na chyflwyno disgrifiadau ystadegol yn unig, mae'r adran hon yn defnyddio dyfyniadau'r ymatebwyr i roi dyfnder a chyd-destun ar gyfer yr ystadegau.

1.4.8 Mae Adran 7, Pobl wahanol, gwasanaethau gwahanol, yn gofyn i'r ymatebwyr feddwl am newidiadau ym mhoblogaeth eu cymuned leol a sut y gallai grwpiau gwahanol yn y boblogaeth gael anhawster wrth gyrchu gwasanaethau gwahanol. Mae'n cynnig golwg ar newidiadau yn y Gymru wledig sydd wedi'u gweld dros y pum mlynedd diwethaf.

1.4.9 Mae'r adran olaf, Adran 8, yn dwyn ynghyd y prif syniadau a gyflwynwyd yng ngweddill yr adroddiad, gan roi manylion y cynghorau eu hunain.


## 1.5 Categoriâu'r Boblogaeth

1.5.1 I ddadansoddi'r data bu'n rhaid ei rannu yn fandiau poblogaeth gwahanol, i ganiatáu cymhariaeth rhwng trefi a chymunedau o wahanol faint. Mae'r bandiau poblogaeth a ddefnyddiwyd yr un fath â rhai arolwg 2004, er mwyn i gymariaethau gael eu gwneud

1.5.2 Mae'r graff isod yn dangos nifer y trefi neu'r cymunedau yn rhan wledig Cymru, a hefyd nifer y trefi neu'r cymunedau a ymatebodd ym mhob band. O'r graff hwn gallwn weld bod yr ymatebion yn dilyn yr un patrwm â'r boblogaeth yn gyffredinol.



Ffigur 1.1: Dosbarthiad Poblogaeth Cynghorau Tref neu Gymuned a'r Cynghorau Tref neu Gymuned a ymatebodd





## CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

Ceisiodd yr arolwg ddadlennu argraffiadau ynghylch a yw'r ddarpariaeth gwasanaethau yn ddigonol a'r argraffiadau ynghylch newidiadau yn y gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn y Gymru wledig.

Anfonwyd 735 o holiaduron at yr holl Gynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru. Cafodd 448 eu dychwelyd. Roedd hyn yn golygu bod yna gyfradd ymateb o 61% ar gyfer Cymru gyfan.

Allan o 569 o Gynghorau Tref a Chymuned gwledig, cafodd 323 eu dychwelyd. Roedd hyn yn golygu bod cyfradd ymateb y Gymru wledig yn 57%. Cafodd arolwg 2004 gyfradd ymateb o 57%.

Anfonwyd yr arolwg ar glerc y Cyngor Tref neu Gymuned, a chymerai tua 30 munud i'w lenwi.

Gallai'r ymatebwyr lenwi'r holiadur yn Gymraeg neu Saesneg, ac ar-lein.

Daeth 65 o ymatebion yn Gymraeg ac 16 yn electronig (yr oedd 1 ohonynt yn Gymraeg).

Roedd y mwyafrif o'r clercod a ymatebodd yn wrywod, ac yn byw yn ardal y Cyngor tref neu Gymuned yr oeddent yn glerc iddo.

Yn y band poblogaeth 600 - 1000 y cafwyd yr ymateb uchaf, wedyn y band poblogaeth 0-600 a 1000 - 1600.

## ADRAN 2 ANSAWDD Y GWASANAETHAU

### 2.1 Rhagymadrodd

2.1.1 Mae'r adran yn archwilio sut mae Clercod Cymunedau yn asesu'r ddarpariaeth gwasanaethau yn eu hardaloedd lleol. Cyflwynir data ar gyfer y Gymru wledig yn ei chrynswth ac ar gyfer gwahanol feintiau o Gyngor Tref neu Gymuned.

2.1.2 O ran asesiadau ar y ddarpariaeth gwasanaethau yn gyffredinol yn eu hardal, gellir gweld o'r tabl isod fod 24.7% o'r farn bod y ddarpariaeth yn dda neu'n dda iawn, a bod 47.4% o'r farn ei bod yn foddhaol. Dim ond 23.3% a deimlai bod y ddarpariaeth gwasanaethau lleol yn wael neu'n wael iawn.

Tabl 2.1 Asesiad cyffredinol ar y ddarpariaeth gwasanaethau yn y Gymru wledig

|            | Amlledd | Canran |
|------------|---------|--------|
| Da iawn    | 4       | 1.2    |
| Da         | 76      | 23.5   |
| Boddhaol   | 153     | 47.4   |
| Gwael      | 58      | 18     |
| Gwael iawn | 17      | 5.3    |
| Yn eisiau  | 15      | 4.6    |
| Cyfanswm   | 323     | 100    |

2.1.3 Roedd hyn yn debyg iawn i'r data a gasglwyd o Gymru gyfan; roedd cyfradd ymateb ychydig yn uwch ar gyfer boddhaol (49.3%) a gwael (19%) yn achos cymru gyfan (gwledig a threfol) ond ar y cyfan roedd hi bron yr un fath. Roedd dosbarthiad yr ymatebion ar gyfer Cymru ac ar gyfer y Gymru wledig yn benodol yr un fath.

### 2.2 Siopau

2.2.1 Yn 2007, roedd gan Gymru dros 11,123 o siopau masnachol a dim ond

4,761 oedd yn y Gymru wledig. Mae hyn yn golygu bod ardaloedd gwledig yn cynnwys tua 43 y cant o'r holl siopau yng Nghymru.

2.2.2 Mae Atodiad Tri yn dangos dadansoddiad o'r hyn sydd wedi'i gynnwys o dan siopau.

Mae siopau wedi'i rannu'n dri chategori gwahanol; Siop bwyd yn unig, Siop heblaw siop fwyd a Siop Gyffredinol (gan ddilyn arolwg 2004). Mae'r cyfrifiadau ar gyfer Cymru a'r canrannau yn y Gymru wledig i'w gweld yn Nhabl 2.2.

Tabl 2.2 Darpariaeth siopau yn y Gymru wledig

|                       | Cymru | Gwledig |
|-----------------------|-------|---------|
| Siop bwyd yn unig     | 1301  | 43.7%   |
| Siop heblaw siop fwyd | 7946  | 44.5%   |
| Siop Gyffredinol      | 1876  | 35.2%   |

Yn y Gymru wledig, mae niferoedd y Cyngorau Cymuned sydd â'r gwahanol siopau i'w gweld yn Nhabl 2.3.

Tabl 2.3 Cyfrifiadau a chanrannau Cyngorau Cymuned sydd â Siop

|                       | Cyfrifiad Cyngorau Cymuned | % Cyngorau Cymuned |
|-----------------------|----------------------------|--------------------|
| Siop bwyd yn unig     | 183                        | 32.2               |
| Siop heblaw siop fwyd | 378                        | 66.4               |
| Siop Gyffredinol      | 225                        | 39.5               |

**Tabl 2.4 Dosbarthiad y siopau yn ôl maint y boblogaeth**

|                      | Cymunedau<br>â ...        |                                    |                       |
|----------------------|---------------------------|------------------------------------|-----------------------|
|                      | Siopau<br>bwyd yn<br>unig | Siopau<br>heblaw<br>siopau<br>bwyd | Siopau<br>Cyffredinol |
| 0-400                | 5%                        | 20%                                | 8.3%                  |
| 400 – 500            | 7.7%                      | 40%                                | 12.3%                 |
| 500 – 600            | 9.1%                      | 38.6%                              | 15.9%                 |
| 600 – 700            | 6.8%                      | 56.8%                              | 13.6%                 |
| 700 – 1000           | 24.5%                     | 69.1%                              | 23.4%                 |
| 1000 – 2000          | 34.5%                     | 82%                                | 47.5%                 |
| 2000 – 4000          | 67.1%                     | 94.5%                              | 83.6%                 |
| 4000+                | 96%                       | 100%                               | 100%                  |
| Cymunedau<br>Gwledig | 32.2%                     | 66.4%                              | 39.5%                 |

2.2.3 O Dabl 2.3, gallwn weld mai siopau bwyd yn unig oedd gan 32% o'r cynghorau. Mae hyn yn golygu nad oedd y gwasanaeth hwn gan 68% o'r Cynghorau Cymuned. Roedd hyn yr un fath yn union ag yn 2004; felly nid oedd nifer y Cymunedau oedd â siopau bwyd yn unig wedi cynyddu nac wedi gostwng<sup>3</sup>.

2.2.4 Roedd gan 66% o'r Cynghorau Cymuned yng Nghymru siopau heblaw siopau bwyd yn unig. Mae hyn yn golygu mai dim ond 34% o'r Cynghorau Cymuned gwledig a oedd heb y cyfleuster hwn. O'i gymharu â 2004, mae hyn yn wahanol iawn. Yn 2004, roedd 67% o'r Cynghorau Cymuned heb siopau a oedd yn gwerthu eitemau heblaw bwyd.

2.2.5 Roedd gan bron 40% o'r Cynghorau Cymuned Siop Gyffredinol. Yn 2004, roedd 38% o'r Cynghorau heb y gwasanaeth hwn, o'i gymharu â 60% yn 2007. Mae hyn yn dangos bod yna gynnydd yn y

<sup>3</sup> Yn 2004 gofynnwyd i Glerc y Gymuned ddsbarthu'r sipau eu hunain, ac rydym wedi dosbarthu drwy ddefnyddio categorïau Point X (a welir yn Atodiad Tri). Mae hyn yn goygu ei bod yn bsoibl bod y siopau yn y dosbarthiadau hyn yn wahanol yn 2004 a 2007.

Cynghorau Cymuned a oedd heb Siop Gyffredinol. Gallai hyn fod yn wir am fod rhai siopau cyffredinol wedi'u dosbarthu fel siopau bwyd yn unig yn 2004.


2.2.6 O Dabl 2.4 gallwn weld canrannau'r ddarpariaeth siopau yn ôl maint ardal y Cyngor Cymuned. O'r tabl hwn gallwn weld bod y ddarpariaeth siopau yn cynyddu gyda maint y boblogaeth.

2.2.8 Roedd yr ymatebion i'r holiadur ynghylch ansawdd y ddarpariaeth siopau yn tueddu tuag at yr ymatebion mwyaf negyddol; dim ond 3.6% o'r ymatebwyr a ddywedodd fod y ddarpariaeth siopau yn eu hardal leol yn dda iawn, o'i gymharu â 21.4% a ddywedodd ei bod yn wael iawn. Dim ond 33% a gredai fod y ddarpariaeth siopau yn foddhaol, a theimlai 28.8% fod y ddarpariaeth yn wael. Gwelir hyn yng Ngraff 2.1.

2.2.9 Mae dwysedd poblogaeth isel yn golygu ei bod yn amhosibl cynnal siopau, a chan fod yna gynnydd mewn canolfannau siopa ar gyrion trefi mae gallu'r siopau bach i gystadlu â'r corfforaethau mwyaf yn dod o dan straen yn barhaol. O Dabl 2.5, gallwn weld yr ymatebion gwahanol yn ôl y band poblogaeth y mae'r Cyngor Cymuned ynddo.

2.2.10 Yn ôl Tabl 2.5, lleiaf yn y byd y bo'r boblogaeth, uchaf yn y byd y bydd canran yr ymatebwyr a ddewisodd y ddau ymateb negyddol. Yn y tri band poblogaeth lleiaf, cafodd gwael iawn ei ddewis gan y nifer fwyaf o Gynghorau Cymuned, 52% yn y band poblogaeth 0 - 400, 39% yn y band 400 - 500 a 48% yn y band 500 - 600. Yn y band 700 - 1000 gwael oedd yr ymateb a ddewiswyd amlaf, ac mewn Cynghorau Cymuned â phoblogaeth o fwy na 1000 yr ateb a ddewiswyd amlaf oedd boddhaol.

Ffigur 2.1 Graff sy'n dangos argraffiadau o ddarpariaeth siopau



Tabl 2.5 Boddhad ar ddarpariaeth siopau yn ôl y boblogaeth

|             | Da iawn | Da    | Boddhaol | Gwael | Gwael iawn | Cyfanswm (Cyfrifiad) |
|-------------|---------|-------|----------|-------|------------|----------------------|
| 0 - 400     | 0.0%    | 12.0% | 20.0%    | 16.0% | 52.0%      | 25                   |
| 400 - 500   | 3.0%    | 6.1%  | 24.2%    | 27.3% | 39.4%      | 33                   |
| 500 - 600   | 3.7%    | 11.1% | 14.8%    | 22.2% | 48.1%      | 27                   |
| 600 - 700   | 0.0%    | 19.0% | 14.3%    | 33.3% | 33.3%      | 21                   |
| 700 - 1000  | 3.8%    | 15.1% | 30.2%    | 37.7% | 13.2%      | 53                   |
| 1000 - 2000 | 7.3%    | 13.4% | 35.4%    | 30.5% | 13.4%      | 82                   |
| 2000 - 4000 | 2.4%    | 19.5% | 53.7%    | 22.0% | 2.4%       | 41                   |
| 4000 +      | 0.0%    | 7.4%  | 55.6%    | 33.3% | 3.7%       | 27                   |
| Cyfanswm    | 11      | 41    | 102      | 89    | 66         | 309                  |

## 2.3 Banciau a Chymdeithasau Adeiladu

2.3.1 Yn 2007, roedd gan Gymru 811 o fanciau a chymdeithasau adeiladu ac roedd 368 yn y Gymru wledig. Roedd hyn yn golygu bod ardaloedd gwledig yn cynnwys tua 46% y cant o'r holl fanciau a chymdeithasau adeiladu yn Nghymru.

2.3.2 Roedd gan 16.9% (n=96) o'r Cynghorau Cymuned yn y Gymru wledig fanc neu gymdeithas adeiladu. O Dabl 2.7 gallwn weld y dadansoddiad yn ôl y boblogaeth. Mae'n glir bod y siawns y bydd gan ardal Cyngor Cymuned fanc neu gymdeithas adeiladu yn cynyddu wrth i'r boblogaeth gynyddu.

2.3.3 A dweud y gwir, roedd gan Gyngorau Cymuned â phoblogaeth o fwy na 4,000 65% o'r holl fanciau a chymdeithasau adeiladu yn y Gymru wledig. O'r dosbarthiad, gallwn weld hefyd mai dim ond 7 o fanciau a chymdeithasau

adeiladu i gyd oedd gan y Cynghorau Cymuned â phoblogaeth o lai na 1000, sef 2% yn unig o'r cyfanswm.

2.3.4 O Dabl 2.6 isod, gallwn weld sut roedd yr ymatebwyr yn gweld y ddarpariaeth gyffredinol o ran banciau a chymdeithasau adeiladu yn eu hardal leol. Dim ond 16% o'r ymatebwyr a ddywedodd bod darpariaeth y gwasanaeth hwn yn dda iawn neu'n dda, a dywedodd bron 61% ei bod yn wael neu'n wael iawn.

**Tabl 2.6 Boddhad banciau a chymdeithasau adeiladu**

|            | Amledd | Canran |
|------------|--------|--------|
| Da iawn    | 10     | 3.1    |
| Da         | 38     | 11.8   |
| Boddhaol   | 54     | 16.7   |
| Gwael      | 66     | 20.4   |
| Gwael iawn | 130    | 40.2   |
| Yn eisiau  | 25     | 7.7    |
| Cyfanswm   | 323    | 100    |

**Tabl 2.7 Banciau a Chymdeithasau adeiladu yn ôl y boblogaeth**

|                                  | 0 - 400 | 400- 500 | 500- 600 | 600- 700 | 700 - 1000 | 1000 - 2000 | 2000 - 4000 | 4000 + | Cyfanswm   |
|----------------------------------|---------|----------|----------|----------|------------|-------------|-------------|--------|------------|
| Banciau a Chymdeithasau Adeiladu | 0.0%    | 0.0%     | 0.3%     | 0.0%     | 1.6%       | 9.0%        | 23.6%       | 65.5%  | <b>368</b> |

**Tabl 2.8 Boddhad Banciau a Chymdeithasau Adeiladu yn ôl y boblogaeth**

|             | Da iawn | Da    | Boddhaol | Gwael | Gwael iawn | Cyfanswm |
|-------------|---------|-------|----------|-------|------------|----------|
| 0 – 400     | 0       | 1     | 4        | 4     | 15         | 24       |
|             | .0%     | 4.2%  | 16.7%    | 16.7% | 62.5%      |          |
| 400 – 500   | 3       | 1     | 2        | 8     | 19         | 33       |
|             | 9.1%    | 3.0%  | 6.1%     | 24.2% | 57.6%      |          |
| 500 – 600   | 1       | 3     | 5        | 5     | 12         | 26       |
|             | 3.8%    | 11.5% | 19.2%    | 19.2% | 46.2%      |          |
| 600 – 700   | 0       | 0     | 4        | 3     | 12         | 19       |
|             | .0%     | .0%   | 21.1%    | 15.8% | 63.2%      |          |
| 700 – 1000  | 0       | 5     | 13       | 13    | 20         | 51       |
|             | .0%     | 9.8%  | 25.5%    | 25.5% | 39.2%      |          |
| 1000 – 2000 | 3       | 7     | 13       | 16    | 40         | 79       |
|             | 3.8%    | 8.9%  | 16.5%    | 20.3% | 50.6%      |          |
| 2000 – 4000 | 0       | 10    | 10       | 13    | 7          | 40       |
|             | .0%     | 25.0% | 25.0%    | 32.5% | 17.5%      |          |
| 4000 +      | 3       | 11    | 3        | 4     | 5          | 26       |
|             | 11.5%   | 42.3% | 11.5%    | 15.4% | 19.2%      |          |
| CYFANSWM    | 10      | 38    | 54       | 66    | 130        | 298      |
|             | 3.4%    | 12.8% | 18.1%    | 22.1% | 43.6%      |          |

2.3.5 Mae poblogaeth y Cyngor Cymuned y mae'r ymatebwyr ynddo yn effeithio ar y ddarpariaeth banciau a chymdeithasau adeiladu yn eu hardal leol. O'r tabl isod mae'n glir bod yr argraff gadarnhaol yn cynyddu hefyd wrth i'r boblogaeth gynyddu. Er enghraifft, dim ond 4.2% o'r ymatebwyr o Gyngorau Cymuned yn y band poblogaeth 0 - 400 a deimlai fod darpariaeth y gwasanaeth hwn yn dda neu'n dda iawn, o'i gymharu â 53.8% o'r rhai yn y band poblogaeth 4000+.

## 2.4 Tafarndai

2.4.1 Yng Nghymru gyfan ceir 2,352 o dafarndai ac roedd 1,168 yn y Gymru wledig, sy'n golygu bod gan yr ardaloedd nad ydynt yn wledig ychydig dros 50 y cant o'r holl dafarndai yng Nghymru.

2.4.2 Roedd gan dros 73% (n=420) o'r Cyngorau Cymuned yn y Gymru wledig dafarn. O ran y ddarpariaeth gwasanaethau, dim ond manau addoli (98.9%) a sefydliadau addysgol (78.9%) oedd yn uwch na hyn.

2.4.3 O Dabl 2.9 gallwn weld dosbarthiad tafarndai yn ôl y boblogaeth. Er bod perthynas gadarnhaol rhwng cynnydd ym maint y boblogaeth a darpariaeth tafarndai, mae hyn yn dangos bod yna dafarndai yn y categorïau poblogaeth isaf hefyd.


2.4.4 Roedd yr ymatebwyr yn ffafriol ynghylch y ddarpariaeth tafarndai yn eu hardal leol a dywedodd 43% fod y ddarpariaeth yn dda iawn neu'n dda, dywedodd 38% ei bod yn foddhaol a dim ond 16% a ddywedodd ei bod yn wael neu'n wael iawn.

Tabl 2.9 Dosbarthiad tafarndai yn ôl y boblogaeth

|           | 0 -400 | 400-500 | 500-600 | 600-700 | 700-1000 | 1000-2000 | 2000-4000 | 4000+ | Cyfanswm |
|-----------|--------|---------|---------|---------|----------|-----------|-----------|-------|----------|
| Tafarndai | 2.0%   | 4.5%    | 3.2%    | 3.3%    | 11.0%    | 21.1%     | 17.8%     | 37.2% | 1168     |

Ffigur 2.2 Boddhad ar Dafarndai

Sut byddech chi'n disgrifio'r ddarpariaeth gyffreinol o ran tafarndai yn eich ardal chi?



2.4.5 Er bod llai o ddarpariaeth tafarndai yn y bandiau poblogaeth isaf na gwasanaethau eraill, roedd yr ymatebwyr yn y bandiau hyn yn llai tebyg o ddweud bod y ddarpariaeth yn dda iawn neu'n dda. Er hynny, fel y gwelir yn y graff uchod, at ei gilydd roedd yr argraff o'r gwasanaeth hwn yn llawer mwy cadarnhaol na g eraill. O'r tabl isod gallwn weld mai ychydig iawn o'r ymatebwyr ym mhob band poblogaeth a deimlai fod y ddarpariaeth tafarndai yn wael neu'n wael iawn.

Y bandiau poblogaeth a deimlai ei bod yn wael neu'n wael iawn amlaf oedd y band poblogaeth 0 - 400 gyda 37.5% a'r band poblogaeth 600 -700, gyda 33.3%. O'r tabl uchod, gallwn weld bod gan y bandiau poblogaeth 500 - 600 a 600 - 700 lai o dafarndai na'r band poblogaeth 400 - 500.



**Tabl 2.10 Boddhad ar dafarndai a'r boblogaeth**

|             | Da iawn | Da    | Bodddhaol | Gwael | Gwael iawn | Cyfanswm |
|-------------|---------|-------|-----------|-------|------------|----------|
| 0 - 400     | 0       | 6     | 9         | 5     | 4          | 24       |
|             | .0%     | 25.0% | 37.5%     | 20.8% | 16.7%      |          |
| 400 - 500   | 4       | 10    | 12        | 2     | 7          | 35       |
|             | 11.4%   | 28.6% | 34.3%     | 5.7%  | 20.0%      |          |
| 500 - 600   | 0       | 8     | 18        | 1     | 0          | 27       |
|             | .0%     | 29.6% | 66.7%     | 3.7%  | .0%        |          |
| 600 - 700   | 3       | 6     | 5         | 4     | 3          | 21       |
|             | 14.3%   | 28.6% | 23.8%     | 19.0% | 14.3%      |          |
| 700 - 1000  | 3       | 22    | 21        | 7     | 1          | 54       |
|             | 5.6%    | 40.7% | 38.9%     | 13.0% | 1.9%       |          |
| 1000 - 2000 | 15      | 19    | 34        | 10    | 5          | 83       |
|             | 18.1%   | 22.9% | 41.0%     | 12.0% | 6.0%       |          |
| 2000 - 4000 | 7       | 16    | 17        | 1     | 0          | 41       |
|             | 17.1%   | 39.0% | 41.5%     | 2.4%  | .0%        |          |
| 4000 +      | 6       | 13    | 7         | 1     | 0          | 27       |
|             | 22.2%   | 48.1% | 25.9%     | 3.7%  | .0%        |          |
| CYFANSWM    | 38      | 100   | 123       | 31    | 20         | 312      |
|             | 12.2%   | 32.1% | 39.4%     | 9.9%  | 6.4%       |          |

## 2.5 Tai Bwyta a Lleoedd i Fwyta

2.5.1 Roedd gan Gymru dros 3,233 o leoedd i fwyta a dim ond 1,287 oedd yn y Gymru wledig sy'n golygu bod gan ardaloedd heblaw ardaloedd gwledig ryw 60 y cant o'r gwasanaeth hwn.

2.5.2 Gall data Point X gael ei rannu'n dri chategori, tai bwyta; caffis a thecawes. Mae Atodiad Tri yn dangos yr hyn sydd wedi'i gynnwys ym mhob dosbarth.

2.5.3 Pan ddadansoddwn y ffigur cyffredinol i gael y categorïau hyn, y math mwyaf cyffredin o le i fwyta (neu i gael bwyd) oedd y tecawe, gyda 1603 yng Nghymru gyfan a 513 yn y Gymru wledig. Wedyn cafwyd tai bwyta ac wedyn caffis.

**Tabl 2.11 Cyfrifiadau Lleoedd i Fwyta**

|           | Cymru | Y Gymru wledig |
|-----------|-------|----------------|
| Tai Bwyta | 1023  | 31.6%          |
| Caffi     | 607   | 18.7%          |
| Tecawe    | 1603  | 50%            |

2.5.4 Er hynny, wrth edrych ar ganrannau'r Cynghorau Cymuned oedd â'r gwasanaeth hwn, roed gan 34% o'r holl Gynghorau Tref neu Gymuned gwledig dŷ bwyta o'i gymharu â 24% oedd â thecawe. Gwelir hyn yn Nhabl 2.12.

**Tabl 2.12 Cyfrifiadau a chanrannau yn y Gymru wledig**

|           | Cyfrifiad | Canran |
|-----------|-----------|--------|
| Tai Bwyta | 194       | 34.1   |
| Caffi     | 124       | 21.8   |
| Tecawe    | 138       | 24.3   |

2.5.4 O ddadansoddi'r rhifau yn ôl gwahanol gategoriâu poblogaeth, unwaith eto gallwn weld mai Cynghorau Cymuned gyda phoblogaeth o fwy na 1000 sy'n dynodi'r pwynt lle ceid cynnydd sylweddol yn narpariaeth y gwasanaeth. Roedd niferoedd y tai bwyta bron â threblu rhwng y band poblogaeth 700 - 1000 a'r band poblogaeth 1000 - 2000, ac roedd nifer y tecawes bron â chynnyddu mwy na 6 gwaith. Gwelir hyn yn Nhabl 2.13.

2.5.5 Roedd yr ymatebwyr i'r holiadur yn credu ran amlaf fod y ddarpariaeth tai bwyta, caffis neu leoedd eraill i fwyta yn foddhaol (30%). Y canrannau eraill oedd: 28% yn dweud ei bod yn dda neu'n dda iawn, a 38% yn dweud ei bod yn wael neu'n wael iawn. Gwelir hyn yn y graff isod.


2.5.6 Pan archwilir yr ymatebion yn ôl maint y boblogaeth, mae'n amlwg bod rhywfaint o anghysondeb rhwng yr ymatebion. O'r tabl isod, gallwn weld bod yna fwy o ymatebion gwae a gwael iawn pen oedd y boblogaeth yn is, a bod yna fwy o ymatebion da neu dda iawn pan oedd y boblogaeth yn uwch.

Tabl 2.13 Tai bwyta, Caffis a Thecawes yn ôl y boblogaeth

|          | 0 – 400 | 400 – 500 | 500 – 600 | 600 – 700 | 700 – 1000 | 1000– 2000 | 2000– 4000 | 4000+  | Cyfan swm |
|----------|---------|-----------|-----------|-----------|------------|------------|------------|--------|-----------|
| Ty Bwyta | 1.0%    | 1.8%      | 1.8%      | 1.4%      | 5.5%       | 15.9 %     | 21.6 %     | 50.9 % | 491       |
| Caffi    | 1.1%    | 1.1%      | 1.8%      | 2.1%      | 4.9%       | 11.0 %     | 24.7 %     | 53.4 % | 283       |
| Tecawe   | 0.4%    | 0.2%      | 0.4%      | 0.2%      | 1.4%       | 8.4%       | 18.5 %     | 70.6 % | 513       |

Ffigur 2.3 Boddhad ar leoedd i fwyta

Sut byddech chi'n disgrifio'r ddarpariaeth gyffredinol o ran tai bwyta, caffis neu leoedd eraill i gfwyta places to eat?



**Tabl 2.14 Boddhad ar leuedd i fwyta a maint y boblogaeth**

|             | Da iawn | Da    | Boddhaol | Gwael | Gwael iawn | Cyfanswm |
|-------------|---------|-------|----------|-------|------------|----------|
| 0 - 400     | 0       | 5     | 4        | 9     | 7          | 25       |
|             | .0%     | 20.0% | 16.0%    | 36.0% | 28.0%      |          |
| 400 - 500   | 5       | 3     | 12       | 4     | 10         | 34       |
|             | 14.7%   | 8.8%  | 35.3%    | 11.8% | 29.4%      |          |
| 500 - 600   | 2       | 2     | 11       | 9     | 3          | 27       |
|             | 7.4%    | 7.4%  | 40.7%    | 33.3% | 11.1%      |          |
| 600 - 700   | 1       | 7     | 2        | 4     | 7          | 21       |
|             | 4.8%    | 33.3% | 9.5%     | 19.0% | 33.3%      |          |
| 700 - 1000  | 3       | 12    | 15       | 13    | 9          | 52       |
|             | 5.8%    | 23.1% | 28.8%    | 25.0% | 17.3%      |          |
| 1000 - 2000 | 5       | 14    | 29       | 21    | 13         | 82       |
|             | 6.1%    | 17.1% | 35.4%    | 25.6% | 15.9%      |          |
| 2000 - 4000 | 6       | 13    | 14       | 7     | 1          | 41       |
|             | 14.6%   | 31.7% | 34.1%    | 17.1% | 2.4%       |          |
| 4000 +      | 2       | 9     | 10       | 4     | 2          | 27       |
|             | 7.4%    | 33.3% | 37.0%    | 14.8% | 7.4%       |          |
| CYFANSWM    | 24      | 65    | 97       | 71    | 52         | 309      |
|             | 7.8%    | 21.0% | 31.4%    | 23.0% | 16.8%      |          |

## 2.6 Gwasanaethau Meddygol

2.6.1 Roedd gan Gymru 1,628 o wasanaethau meddygol (sef meddygon teulu, canolfannau iechyd, deintyddfeydd a fferyllfeydd) ac roedd 821 mewn ardaloedd gwledig. Roedd gan yr ardaloedd nad oeddent yn wledig ryw 66 y cant o'r gwasanaethau meddygol yng Nghymru.

2.6.2 Dim ond 35% o'r meddygon teulu oedd yn y Gymru wledig, 28% o'r canolfannau iechyd, 35% o'r deintyddfeydd a 33% o'r Fferyllfeydd. Mae Tabl 2.15 yn dangos lefelau'r ddarpariaeth ar gyfer pob gwasanaeth yng Nghymru, ac yn y Gymru wledig.

**Tabl 2.15 Cyfrifiadau gwasanaethau iechyd yng Nghymru, canrannau ar gyfer y Gymru wledig**

|                    | Cymru | Y Gymru wledig |
|--------------------|-------|----------------|
| Meddygon Teulu     | 750   | 34.9%          |
| Canolfannau Iechyd | 458   | 28.6%          |
| Deintyddfeydd      | 449   | 35.4%          |
| Fferyllfeydd       | 792   | 34.0%          |

2.6.3 Dim ond 30% o'r Cynghorau Cymuned gwledig oedd â meddyg teulu. Llai na chwarter oedd â fferyllfa, a dim ond 14% oedd â deintyddfa. Gwelir hyn yn Nhabl 2.16

2.6.4 Gwael iawn oedd darpariaeth y gwasanaeth hwn mewn Cynghorau Cymuned isel eu poblogaeth. O'r tabl isod gallwn weld mai un fferyllfa yn unig yn y cyfan o'r Gymru wledig a oedd gan y band poblogaeth 0 - 400, a dim un Meddyg Teulu, Canolfan Iechyd na Deintyddfa. Roedd y band poblogaeth 4000+ yn cynnwys 45.8% o'r holl Feddygon Teulu, 68.7% o'r canolfannau iechyd, 70.4% o'r deintyddfeydd a 61.7% o'r fferyllfeydd. Fel y gwelir yn yr adran ganlynol, mae crynodiad y gwasanaethau hyn yn gallu peri problemau i bobl sy'n dibynnu ar gludiant cyhoeddus i'w cyrraedd.

2.6.5 Mae argraff yr ymatebwyr ynghylch darpariaeth gwasanaethau meddygol yn eu hardaloedd lleol yn dangos yn gyffredinol fod y mwyafrif o bobl yn fodlon, a bod mwy o bobl yn teimlo ei bod yn dda neu'n dda iawn na gwael neu wael iawn. Teimlai 34.7% o'r ymatebwyr fod y ddarpariaeth gwasanaeth yn foddhaol, teimlai 33% ei bod yn dda neu'n dda iawn a theimlai 27.5% o'r bobl ei bod yn wael neu'n wael iawn.

2.6.6 O ddadansoddi'r ymatebion yn ôl bandiau poblogaeth, boddhaol oedd yr ymateb uchaf o'r cyfan o hyd. Er hynny, yn y band poblogaeth isaf, 0 - 400, dywedodd mwy o bobl ei bod yn wael neu'n wael iawn (48%) nag a ddywedodd ei bod yn foddhaol (36%). Dim ond yn y band poblogaeth 600 - 700 y dyblygwyd hyn, lle teimlai 43.8% o'r ymatebwyr fod y ddarpariaeth gwasanaethau meddygol yn wael neu'n wael iawn, o'i gymharu â 23.8% a deimlai ei bod yn foddhaol. Gwelir hyn yn Nhabl 2.18.

**Tabl 2.16 Cyfrifiadau a chanrannau Cynghorau Cymuned â gwasanaethau iechyd yn y Gymru wledig**

|                    | Cyfrifiad y Cynghorau Cymuned | Canran y Cynghorau Cymuned |
|--------------------|-------------------------------|----------------------------|
| Meddygon Teulu     | 171                           | 30.1                       |
| Canolfannau Iechyd | 71                            | 12.5                       |
| Denityddfeydd      | 82                            | 14.4                       |
| Fferyllfeydd       | 128                           | 22.5                       |

**Tabl 2.17 Dosbarthiad gwasanaethau iechyd yn ôl y boblogaeth**

|                    | 0 - 400 | 400 - 500 | 500 - 600 | 600 - 700 | 700 - 1000 | 1000- 2000 | 2000- 4000 | 4000+  | Cyfan swm |
|--------------------|---------|-----------|-----------|-----------|------------|------------|------------|--------|-----------|
| Meddygon Teulu     | 0.0%    | 0.8%      | 0.8%      | 1.5%      | 6.9%       | 18.7 %     | 25.6 %     | 45.8 % | 262       |
| Canolfannau Iechyd | 0.0%    | 0.0%      | 0.0%      | 0.0%      | 1.5%       | 12.2 %     | 17.6 %     | 68.7 % | 131       |
| Denityddfeydd      | 0.0%    | 0.0%      | 0.0%      | 0.0%      | 0.6%       | 7.5%       | 21.4 %     | 70.4 % | 159       |
| Fferyllfeydd       | 0.4%    | 0.0%      | 0.0%      | 0.4%      | 3.7%       | 10.0 %     | 23.8 %     | 61.7 % | 269       |

**Tabl 2.18 Boddhad ar wasanaethau iechyd yn ôl y boblogaeth**

|                 | Da iawn | Da    | Boddhaol | Gwael | Gwael iawn | CYFANSWM |
|-----------------|---------|-------|----------|-------|------------|----------|
| 0 - 400         | 1       | 3     | 9        | 8     | 4          | 25       |
|                 | 4.0%    | 12.0% | 36.0%    | 32.0% | 16.0%      |          |
| 400 - 500       | 5       | 5     | 16       | 7     | 2          | 35       |
|                 | 14.3%   | 14.3% | 45.7%    | 20.0% | 5.7%       |          |
| 500 - 600       | 0       | 8     | 11       | 3     | 3          | 25       |
|                 | .0%     | 32.0% | 44.0%    | 12.0% | 12.0%      |          |
| 600 - 700       | 3       | 4     | 5        | 4     | 5          | 21       |
|                 | 14.3%   | 19.0% | 23.8%    | 19.0% | 23.8%      |          |
| 700 - 1000      | 9       | 10    | 18       | 12    | 4          | 53       |
|                 | 17.0%   | 18.9% | 34.0%    | 22.6% | 7.5%       |          |
| 1000 - 2000     | 9       | 21    | 29       | 14    | 9          | 82       |
|                 | 11.0%   | 25.6% | 35.4%    | 17.1% | 11.0%      |          |
| 2000 - 4000     | 5       | 14    | 14       | 5     | 2          | 40       |
|                 | 12.5%   | 35.0% | 35.0%    | 12.5% | 5.0%       |          |
| 4000 +          | 1       | 9     | 10       | 3     | 4          | 27       |
|                 | 3.7%    | 33.3% | 37.0%    | 11.1% | 14.8%      |          |
| <b>CYFANSWM</b> | 33      | 74    | 112      | 56    | 33         | 308      |
|                 | 10.7%   | 24.0% | 36.4%    | 18.2% | 10.7%      |          |

## 2.7 Ysgolion

2.7.1 Yn 2007 roedd Cymru'n cynnwys tua 1933 o sefydliadau addysgol (Ysgolion Gwladol Ystod Oedran Eang ac Uwchradd, Ysgolion Cyntaf, Cynradd a Babanod, Sefydliadau Addysg Bellach, Sefydliadau Addysg Uwch, Ysgolion Annibynnol, Ysgolion Paratoi, Ysgolion a Cholegau Arbennig) ac roedd 899 o'r rhain i'w gweld yn y Gymru wledig.

2.7.2 Dangosir dadansoddiad y sefydliadau addysgol hyn ar gyfer Cymru gyfan yn Nhabl 2.19, sydd hefyd yn dangos yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn nosbarthiad y sefydliadau addysgol.

**Tabl 2.19 Gwasanaethau Addysg**

|  | Amledd | Canran |
|--|--------|--------|
| Ysgolion Gwladol Ystod Oedran Eang ac Uwchradd | 225    | 11.6   |
| Ysgolion Cyntaf, Cynradd a Babanod             | 1461   | 75.6   |
| Sefydliadau Addysg Bellach                     | 80     | 4.1    |
| Sefydliadau Addysg Uwch                        | 57     | 2.9    |
| Ysgolion Annibynnol ac Ysgolion Paratoi        | 34     | 1.8    |
| Ysgolion a Cholegau Arbennig                   | 76     | 3.9    |
| Cyfanswm                                       | 1933   | 100.0  |

2.7.3 Roedd 78.9% (n=449) o'r Cynghorau Cymuned a oedd â sefydliad addysgol. O'r tabl isod gallwn weld bod 35.8% o'r holl sefydliadau addysg gwledig yn y band poblogaeth 4000+, ac mai dim ond 2.1% oedd yn y band poblogaeth 0 - 400.

2.7.4 Eithaf cadarnhaol oedd argraff yr ymatebwyr o'r ddarpariaeth ysgolion yn eu hardal. Gwelir hyn yn glir o'r canrannau yn Nhabl 2.20

**Tabl 2.20 Boddhad ar y gwasanaeth addysg**

|            | <b>Amlledd</b> | <b>Canran</b> |
|------------|----------------|---------------|
| Da iawn    | 87             | 26.9          |
| Da         | 120            | 37.2          |
| Boddhaol   | 75             | 23.2          |
| Gwael      | 14             | 4.3           |
| Gwael iawn | 16             | 5.0           |
| Yn eisiau  | 11             | 3.4           |
| Cyfanswm   | 323            | 100.0         |

2.7.5 O'r tabl hwn, gallwn weld fod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn teimlo bod y ddarpariaeth ysgolion yn eu hardal leol yn dda, ac wedyn da iawn ac wedyn boddhaol. Gwelir hyn yn Ffigur 2.4.

Dyblygwyd y duedd hon ar draws pob band poblogaeth.


## 2.8 Amrywiol

2.8.1 Mae Tabl 2.20 yn dangos y cyfrifiadau o Gynghorau tref neu Gymuned ag amrywiol wasanaethau. O'r tabl, gallwn weld bod gan 98.9% o Gynghorau Tref neu Gymuned fan Addoli, a bod gan 71.2% Swyddfa Bost.

2.8.2 Mae Tabl 2.21 yn dangos darpariaeth y gwasanaethau hyn wedi'i dadansoddi fesul band poblogaeth. O hyn, gallwn weld, yn unol â'r disgwyl, fod y siawns o fod â'r gwasanaethau hyn hefyd yn codi wrth i'r boblogaeth gynyddu.

## Ffigur 2.4 Boddhad ar ddarpariaeth ysgolion

Sut byddech chi'n disgrifio'r ddarpariaeth ysgolion yn eich ardal chi?



Tabl 2.21 Dosbarthiad amrywiol wasanaethau yn ôl y boblogaeth

|                                  | 0 – 400 | 400 – 500 | 500 – 600 | 600 – 700 | 700 – 1000 | 1000– 2000 | 2000– 4000 | 4000+ | Cyfanswm |
|----------------------------------|---------|-----------|-----------|-----------|------------|------------|------------|-------|----------|
| Swyddfa bost                     | 3.8%    | 5.0%      | 4.1%      | 5.2%      | 13.8%      | 25.8%      | 16.9%      | 25.5% | 581      |
| Gorsaf Betrol                    | 1.6%    | 2.3%      | 0.8%      | 4.3%      | 10.1%      | 22.5%      | 23.3%      | 35.3% | 258      |
| Grwpiau Gofal Dydd               | 1.6%    | 1.4%      | 1.1%      | 1.9%      | 3.8%       | 19.2%      | 18.4%      | 52.7% | 370      |
| Mannau Addoli                    | 5.0%    | 8.0%      | 5.0%      | 6.1%      | 15.7%      | 25.3%      | 16.0%      | 18.8% | 3415     |
| Llyfrgell Barhaol                | 0.0%    | 0.0%      | 0.0%      | 0.9%      | 2.8%       | 14.0%      | 33.6%      | 48.6% | 107      |
| Neuad Bentref / Canolfan Gymuned | 1.9%    | 3.7%      | 2.3%      | 5.6%      | 8.8%       | 15.3%      | 18.5%      | 44.0% | 216      |



## CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

### **Darpariaeth Gwasanaethau**

Teimlai 24.7% o'r ymatebwyr fod y ddarpariaeth gwasanethau yn dda neu'n dda iawn, teimlai 47.7% ei bod yn foddhaol a theimlai ychydig o dan chwarter fod y ddarpariaeth gwasanethau yn eu hardal leol yn wael neu'n wael iawn.

### **Siopau**

Roedd canran y cymunedau â siopau bwyd yn unig yr un fath ag yn 2004 gyda'r gwasanaeth hwn ar gael mewn 68% o'r Cynghorau Cymuned.

Roedd gan 66% o'r Cynghorau Cymuned siop heblaw siop bwyd yn unig.

Roedd gan bron 40% o'r Cynghorau Cymuned Siop Gyffredinol.

### **Banciau a Chymdeithasau Adeiladu**

Roedd gan 16.9% o'r Cynghorau Cymuned yn y Gymru wledig fanc neu gymdeitahs adeiladu. Roedd gan y band poblogaeth 4000+ 65.5% o'r holl fanciau a chymdeitahsau.

Dywedodd bron 61% o'r ymatebwyr fod y ddarpariaeth banciau a chymdeitahs adeiladu yn wael neu'n wael iawn.

### **Tafarndai**

Roedd gan dro 73% o Gynghorau Cymuned y Gymru wledig dafarn.

Teimlai 43% o'r ymatebwyr fod y ddarpariaeth tafarndai yn dda neu'n dda iawn, a dim ond 16% a ddywedodd eibod yn wael neu'n wael iawn.

### **Tai Bwyta, Caffis neu lleoedd eraill i fwyta**

Teimlai'r nwyafrif o'r ymatebwyr fod y ddarpariaeth tai bwyta, caffis a lleoedd i fayt a yn wael neu'n wael iawn, sef 38%. Teimlai 30% ei bod yn foddhaol a dywedodd 28% fod y gwasanaeth hwn yn dda neu'n dda iawn.

### **Gwasanaethau Meddygol**

Dim ond 35% o'r holl feddygon teulu yng Nghymru oedd yn y Gymru wledig. Llai na thraean o'r Cynghorau Tref a Chymyend gwledig oedd â meddyg teulu, llai na chwarter oedd â fferyllfa a dim ond 14% oedd â deintyddfa.

### **Ysgolion**

Roedd gan 78.9% o Gynghorau Tref a Chymuned yn y Gymru wledig sefydliad addysgol. Roedd y mwyafrif o'r rhain wedi'u lleoli yn y band poblogaeth 4000+ (35.8%).

## ADRAN 3 NEWID YN NARPARIAETH GWASANAETHAU

### 3.1 Rhagymadrodd

3.1.1 Mae'r adran hon yn sôn am yr argraff o newid yn ardal y Cyngor Tref neu Gymuned, a sut roedd newid yn y ddarpariaeth gwasanaethau wedi effeithio arni. Gofynnodd yr holiadur i'r ymatebydd 'feddwl yn gyffredinol' am y materion hyn ac a oedden nhw wedi effeithio ar 'y mwyafrif o bobl' yn yr ardal.

### 3.2 Cludiant cyhoeddus

3.2.1 Gall darpariaeth cludiant cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig gael effaith fawr ar sut mae pobl yn byw. Os oes gwasanaeth dibynadwy, rheolaidd rhwng cymuned wledig a metropolis trefol, does dim rhai i'r ddarpariaeth gwasanaethau yn y gymuned wledig fod mor dda, gan ei bod yn hawdd i bobl deithio i ble mae gwell gwasanaethau ar gael. Er hynny, os yw'r gwasanaeth cludiant cyhoeddus yn wael, gall pobl sydd heb gar neu gludiant preifat gael eu hynysu a'u pellhau oddi wrth y gwasanaethau allweddol.

3.2.2 Teimlai'r mwyafrif o'r ymatebwyr fod y ddarpariaeth cludiant cyhoeddus wedi aros yr un fath (50%), a dywedodd ychydig yn fwy o ymatebwyr ei bod wedi newid er gwell (26.6%) nag er gwaeth (23.4%).

3.2.3 O'r ymatebwyr na ddewisodd un o'r tri opsiwn (n=15), eu rheswm dros hynny ran amlaf oedd nad oedd system cludiant cyhoeddus yn eu cymuned leol (n=15), fel y gwelir yn y dyfyniadau gan yr ymatebwyr hyn isod.

*'Does dim un'*

*'Yn ddiweddar maen nhw wedi mynd o ddrwg i waeth drwy newid y gweithredwr.'*

*'Does gynnwys ni ddim cludiant cyhoeddus. Mae'r bysus ysgol wedi newid darparwr gwasanaeth a hynny ar draul y gwasanaeth.'*

3.2.3 Soniodd yr ymatebwyr a deimlai fod y gwasanaeth wedi gwella am well amledd bysiau, gwell llwybrau ac amserlennu a oedd yn fwy sensitif i anghenion y gymuned leol. Fel y crynhodd un ymatebydd; *'Gwasanaeth bysiau amlach. Gwell amserlen. Llwybrau mwy cyfleus.'*

3.2.4 I'r ymatebwyr a ddewisodd y categori 'wedi aros yr un fath', yn anffodus roedd hyn yn aml yn golygu nad oedd gwasanaeth gwael wedi newid, "Mae wedi parhau yr un fath, ond doedd e ddim yn dda i ddechrau". Roedd hyn yn rhoi golwg ar ystyr yr ystadegau; gallai aros yr un fath gael ei weld fel pe na bai'n ganlyniad negyddol, ond a dweud y gwir mae'n cuddio barn negyddol am gludiant cyhoeddus. Mae'r dyfyniadau isod yn nodweddiadol o'r mwyafrif o'r ymatebion, gan ddangos y gwahanol strategaethau ymdopi a oedd gan bobl â chludiant cyhoeddus gwael, yn ogystal â phroblemau penodol ar gyfer eu hardaloedd sy'n cael eu dyblygu mewn llawer o sefyllfaoedd gwahanol.

*'Gwasanaeth bysiau yn unig. Llawer o'r henoed yn defnyddio tacsis (lleol).'*

*'Bws i Lamed ddwywaith yr wythnos - arhosiad byr yn ydre. Anodd i'r rhai sy'n ymweld â'r feddygfa Dyw'[r bysiau ddim bob amser yn cyd-fynd â'r trenau...'*

*'Does yna ddim byd.'*

*'Dim gwelliant wedi'i weld.'*

*'Does dim cyfleusterau cludiant cyhoeddus rheolaidd wedi bod yn yr ardal hon erioed a dydy hynny ddim wedi newid.'*

*'Doedd byth digon o bobl i lenwi bysus ac felly byddai pobl yn defnyddio cludiant preifat. Does dim byd wedi newid i gynyddu neu leihau'r sefyllfa.'*

3.2.5 I'r ymatebwyr a ddewisodd 'wedi gwaethygu', roedd gwasanaethau bysiau a threnau yn aml yn gostwng o ran

rheoleidd-dra a dibynadwyedd. Siaradai llawer o'r ymatebwyr am dorri'r gwasanaethau neu am ffyrniau preifat yn cael eu cyflogi a oedd yn llai dibynadwy. Roedd defnyddio mwy ar y tacsî yn cael ei weld fel yr unig ffordd i gyrraedd lleoedd i lawer o'r ymatebwyr.


*'Mae'r bysau'n llai a bron â diflannu.'*  
*'Llai o gludiant cyhoeddus nag o'r blaen ac roedd hynny'n wael beth bynnag.'*  
*'Mae'r bobl leol yn defnyddio tacsîs. Mae'r trenau'n ofnadwy – maen nhw'n frwnt ac yn rhy ychydig yn aml.'*  
*'Cafodd anawsterau eu creu gan y cyngor sir wrth geisio newid contractau'r bysiau'*

3.2.6 Wrth edrych ar y ddarpariaeth cludiant cyhoeddus yn ôl maint y

boblogaeth, parhau wnaeth y duedd gyffredinol i fwy o bobl ddewis 'wedi aros yr un fath', ond gallwn weld rhywfaint o wahaniaeth. Er enghraifft, yn y band poblogaeth 600 - 700 dim ond 4.5% o bobl oedd yn teimlo bod eu gwasanaeth cludiant cyhoeddus wedi gwaethygu, o'i gymharu â'r band poblogaeth 500 - 600 lle teimlai 38.5% ei fod wedi gwaethygu.

3.2.7 Y band poblogaeth 600 - 700 hefyd oedd â'r nifer uchaf o ymatebwyr a oedd yn teimlo bod eu gwasanaeth wedi gwella, sef 31.8%, ac wedyn y band poblogaeth 400 - 500 gyda 31.4%. O Ffigur 3.1, gallwn weld y dosbarthiad ar gyfer pob band poblogaeth.

**Ffigur 3.1 Darpariaeth cludiant cyhoeddus yn ôl maint y boblogaeth**



### 3.3 Tai fforddiadwy

3.3.1 Bydd yr adran hon yn edrych ar gwestiwn tai fforddiadwy. Dyma bryder sy'n cynyddu mewn ardaloedd gwledig ledled y DU, ac nid yw Cymru yn eithriad.

3.3.2 Dangosodd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn duedd amlwg tuag at yr ymateb 'wedi gwaethygu'. Dim ond 7.7% o'r holl ymatebwyr a deimlai fod y sefyllfa wedi gwella, teimlai 30.9% ei bod wedi

aros yr yn fath, a theimlai'r ganran aruthrol o 61.4% ei bod wedi gwaethygu.

3.3.3 I bron y cyfan o'r ymatebwyr nad atebodd ran gyntaf y cwestiwn (n=12) y rheswm oedd nad oedd yna dai fforddiadwy o gwbl yn yr ardal. Mewn gwirionedd, rhoddodd y grwp hwn ymatebion pur emosiynol, gydag un ymatebydd yn dweud;

*'Mae yna brinder tir dybryd achos y cyfyngiadau cynllunio ac mae hynny wedi gwneud i brisiau tai godi ymhell allan o gyrraedd pobl ar gyflog cyffredin. Mae'r diflastod yn sgil hyn yn llawer pwysicach na manteision materion llain werdd/cadwraeth.'*

3.3.4 Roedd argaeledd tai wedi gwella wrth i ragor o gartrefi gael eu codi. Roedd polisïau gwahanol wedi dwyn ffrwyth, gyda phobl yn sôn am wahanol gynlluniau gan Gynghorau Sir a oedd yn golygu, er enghraifft, fod rhaid i 30% o'r cartrefi newydd fod yn fforddiadwy, a bod amrywiol ganrannau o ystadau yn cael eu neilltuo ar gyfer tai fforddiadwy. Cafwyd rhai disgrifiadau cadarnhaol hefyd, 'mae amrywiaeth o dai newydd wedi'u codi yn y blynyddoedd diwethaf - tai fforddiadwy yw'r mwyafrif. Wrth gwrs, roedd y diffiniad o fforddiadwy yn rhywbeth a oedd yn agored i gael ei drafod, fel y crynhodd un o'r trigolion, 'mae tai fforddiadwy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd, ond roedd y prisiau wedi codi gymaint nes bod neb o'r ardal yn gallu eu fforddio nhw'.

3.3.5 I'r ymatebwyr a deimlai fod y sefyllfa dai wedi aros yr un fath, yn anffodus roedd hyn ran amlaf yn dynodi ei bod wedi aros yn wael. Fe gydnabu rhai o'r ymatebwyr fod pethau'n digwydd, ond dadleuent yn aml fod yr awdurdodau wedi methu â gweithredu yn y pen draw a darparu cartrefi fforddiadwy i'r bobl leol, fel y gwelir yn y dyfyniadau isod.

*'Er bod hyn yn ardal rad o ran prisiau tai, llai o gyfleoedd sydd yna i bobl ifanc roi eu traed ar yr ysgol.'*

*'Er gwaethaf 19 o gartrefi newydd gan y gymdeithas tai, does dim un wedi cael ei ddyrannu i drigolion neu deuluoedd trigolion y gymuned.'*

*'Dim tai fforddiadwy wedi'u hadeiladu.'*

*'Does dim un wedi'i godi.'*

*'Dim ond tai ym mhen ucha'r farchnad sydd wedi'u codi. Mae yna gynlluniau ar*

*gyfer tai fforddiadwy ond dydyn nhw ddim wedi'u codi eto.'*

3.3.6 Problemau tai haf, mewnllifiad o bobl nad oedden nhw'n lleol, a datblygiadau a oedd yn syml yn rhy ddrud i'r bobl leol, prynwyr tro cyntaf a phobl ifanc oedd y rhesymau mawr ym marn y rhai a deimlai fod argaeledd tai fforddiadwy wedi gwaethygu. Dangosir hyn yn y dyfyniadau isod.

*'Mae 30%/ 40% o'r tai yn ail gartrefi, a dim ond am amser byr mae rhywun yno. £250,000 am y cartrefi mwya sylfaenol.'*

*'Tai fforddiadwy wedi'u codi, ond mae estyniadau wedi'u codi ac maen nhw'n cael eu hailwerthu am brisiau amhosibl eu fforddio. O ganlyniad, does dim tai fforddiadwy!'*

*'Mae'r bobl leol yn methu prynu unrhyw dy sy'n dod ar y farchnad i'w werthu neu i'w rentu. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o'r tai yn cael eu gwerthu i bobl o'r De neu rannau eraill o Brydain'*

*'Achos y cynnydd ym mhrisiau tai yn genedlaethol, mae tai fforddiadwy yn fyth. Ychydig neu ddim darpariaeth sydd yna, deall bod yna bolisiau ond dydyn nhw ddim yn gweithio.'*

*'Mae prisiau tai yn chwerthinllyd o uchel ac allan o gyrraedd y rhan fwyaf o'r boblogaeth ifanc. Mae llawer o dai haf yn yr ardal ac mae llawer o rai di-Gymraeg wedi symud i'r ardal.'*

*'Dwi'n dal heb gael ymateb iawn gan y cyngor am beth yn union maen nhw'n feddwl wrth 'dai fforddiadwy'. Fforddiadwy i bwy yn hollol - y bobl sydd mewn gwir angen neu'r dosbarth canol? Mae'r sefyllfa wedi gwaethygu, gyda llai o dai ar gael i'w rhentu.'*

*'Mae'n amhosibl i brynwyr tro cyntaf. Dyma un o brif achosion colli pobl ifanc i ardaloedd eraill; fforddiadwyedd a diffyg eiddo i'w rentu.'*

*'Mae bron yn amhosibl i'r bobl ifanc feddwl am brynu cartref yn yr ardal yma. Rwy'n credu bod hynny'n gwbl warthus ac o*

*achos hynny mae ardaloedd cefn gwlad fel hyn yn colli eu pobl ifanc.'*

*'Mae mwy o bobl yn ymddeol i'r ardal gan gynyddu'r prisiau. Does dim tai cyngor yn cael eu hadeiladu.'*

*'Mae'r cynnydd ym mhrisiau tai er lles tai haf wedi gyrru mwy o dai allan o fael gweithwyr ar dâl isel. Does dim tai cost isel wedi'u darparu i wneud iawn am hynny*

3.3.7 O'r dyfyniadau hyn, gallwn weld fod ambell fater allweddol yn peri problemau o ran tai fforddiadwy. Y themâu a godai drosodd a throsodd oedd diffyg datblygiadau tai a oedd yn darparu ar gyfer anghenion pobl leol, ac yn enwedig pobl ifanc a pharau ifanc; mewnlifiad o bobl (nad oedden nhw'n lleol, pobl yn ymddeol); a phrynu tai haf, a oedd yn gwthio prisiau tai i fyny, yn aml y tu hwnt i gyrraedd y trigolion lleol a'u teuluoedd.

3.3.8 O rannu'r data i'r gwahanol fandiau poblogaeth, gallwn weld bod problem argaeledd tai yn eang a bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn teimlo bod y sefyllfa wedi gwaethgu ym mhob band poblogaeth. Gwelir hyn yn Nhabl 3.1

**Tabl 3.1 Boddhad ar dai fforddiadwy yn ôl y boblogaeth**

|             | Er Gwell | Aros yr un fath | Gwaethgu | CYFANSWM |
|-------------|----------|-----------------|----------|----------|
| 0 - 400     | 1        | 9               | 16       | 26       |
| 400 - 500   | 2        | 13              | 21       | 36       |
| 500 - 600   | 1        | 8               | 17       | 26       |
| 600 - 700   | 3        | 7               | 11       | 21       |
| 700 - 1000  | 4        | 18              | 31       | 53       |
| 1000 - 2000 | 8        | 25              | 48       | 81       |
| 2000 - 4000 | 4        | 11              | 26       | 41       |
| 4000 +      | 1        | 5               | 21       | 27       |
| CYFANSWM    | 24       | 96              | 191      | 311      |

### 3.4 Yr Heddlu a Phlismona

3.4.1 Teimlai'r mwyafrif o'r ymatebwyr fod plismona neu bresenoldeb yr heddlu yn eu hardal leol wdi aros yr un fath. Dim ond 19% a deimlai ei fod wedi gwella, a theimlai 31% ei fod wedi gwaethgu. Gallwn weld hyn o Dabl 3.2.

**Tabl 3.2 Boddhad ar yr heddlu a phlismona**

|                 | Cyfrifiad  | Canran       |
|-----------------|------------|--------------|
| Er Gwell        | 62         | 19.2         |
| Aros yr un fath | 150        | 46.4         |
| Gwaethgu        | 99         | 30.7         |
| Yn eisiau       | 12         | 3.7          |
| <b>CYFANSWM</b> | <b>323</b> | <b>100.0</b> |

3.4.2 Mae Tabl 3.3 yn dangos dosbarthiad swyddfeydd heddlu yn ôl y boblogaeth. O hyn gallwn weld mai dim ond wrth i'r boblogaeth fynd yn uwch na 1000 y ceir unrhyw wir siawns y bydd yna swyddfa heddlu.

3.4.3 Wrth edrych ar argraffiadau o blismona yn ardaloedd lleol yr ymatebwyr drwy ddefnyddio'r boblogaeth, cafwyd canlyniadau diddorol. Wrth i'r boblogaeth gynyddu, yn benodol tua 700 - 1000, y cafwyd yr argraffiadau mwyaf negyddol o blismona. Gwelir hyn yn Nhabl 3.4.

Tabl 3.3 Dosbarthiad swyddfeydd heddlu yn ôl y boblogaeth

|                   | 0 - 400 | 400- 500 | 500- 600 | 600- 700 | 700- 1000 | 1000- 2000 | 2000 - 4000 | 4000 + | Cyfanswm |
|-------------------|---------|----------|----------|----------|-----------|------------|-------------|--------|----------|
|                   | 0%      | 1.0%     | 0%       | 0%       | 2%        | 16.7%      | 38.2%       | 42.2%  | 100%     |
| Swyddfeydd heddlu | 0       | 1        | 0        | 0        | 2         | 17         | 39          | 43     | 102      |

Tabl 3.4 Newid yn yr Heddlu a Phlisma yn ôl y boblogaeth dros y 5 mlynedd diwethaf

| Y boblogaeth |           | Er Gwell | Aros yr un fath | Gwaethygu | CYFANSWM   |
|--------------|-----------|----------|-----------------|-----------|------------|
| 0 - 400      | Cyfrifiad | 4        | 15              | 8         | <b>27</b>  |
|              | %         | 14.8%    | 55.6%           | 29.6%     |            |
| 400 - 500    | Cyfrifiad | 8        | 20              | 8         | <b>36</b>  |
|              | %         | 22.2%    | 55.6%           | 22.2%     |            |
| 500 - 600    | Cyfrifiad | 6        | 14              | 6         | <b>26</b>  |
|              | %         | 23.1%    | 53.8%           | 23.1%     |            |
| 600 - 700    | Cyfrifiad | 3        | 16              | 3         | <b>22</b>  |
|              | %         | 13.6%    | 72.7%           | 13.6%     |            |
| 700 - 1000   | Cyfrifiad | 10       | 21              | 23        | <b>54</b>  |
|              | %         | 18.5%    | 38.9%           | 42.6%     |            |
| 1000 - 2000  | Cyfrifiad | 13       | 39              | 30        | <b>82</b>  |
|              | %         | 15.9%    | 47.6%           | 36.6%     |            |
| 2000 - 4000  | Cyfrifiad | 11       | 15              | 13        | <b>39</b>  |
|              | %         | 28.2%    | 38.5%           | 33.3%     |            |
| 4000 +       | Cyfrifiad | 7        | 10              | 8         | <b>25</b>  |
|              | %         | 28.0%    | 40.0%           | 32.0%     |            |
| Cyfanswm     | Cyfrifiad | 62       | 150             | 99        | <b>311</b> |
|              | %         | 19.9%    | 48.2%           | 31.8%     |            |

3.4.4 Mae'r ymatebion ansoddol yn rhoi cip ar y canfyddiadau hyn. I'r bobl hynny a deimlai fod y gwasanaeth yn gwella, presenoldeb CMB (Bwrdd Rheoli Troseddau) a PCSO (Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu) i'w hardal leol oedd y newid pwysicaf. Mae hyn wedi sicrhau mwy o gydadweithio rhwng y gymuned a'r heddlu, fel y mae'r ymatebwyr hyn yn ei ddisgrifio;

*'Yn sgil datblygu plisma cymunedol mae'r plisma yn yr ardal yn llawer gwell nag o'r blaen. Erbyn hyn mae'r*

*swyddogion yn wir yn gweithio gyda'r gymuned i roi blaenoriaeth i broblemau'.*

*'Swyddog cymunedol ar y rhawd yn rheolaidd ac mae ganddo berthynas dda â'r ieuenctid.'*

*'Mae llai o heddlu yn patrolio'r strydoedd bellach ond mae mwy o ddefnydd ar swyddogion cymorth cymunedol.'*

3.4.5 Yn anffodus, unwaith eto, mae'r categori 'Aros yr un fath' fel petai'n golygu nad oes gwelliant wedi bod mewn gwasanaeth gwael. Roedd y sylwadau mwyaf cyffredin yn sôn am ddiffyg



gwelededd yr heddlu. Mae'r ymatebwyr hyn wedi disgrifio hyn:

*'Anaml y gwelwch chi blismon – efallai yr aiff car ar wib drwy'r pentre ambell waith.'*  
*'Gan ein bod ni ar y ffin rhwng dau ranbarth, anaml maen nhw'n cael eu gweld.'*

3.4.6 Roedd rhai o'r ymatebwyr yn meddwl yn gadarnhaol am y dyfodol, gyda chynlluniau newydd yn cael eu rhoi ar waith:

*'Ardal led-wledig, swyddfa'r heddlu chwe milltir i ffwrdd, dim llawer o bresenoldeb heddlu yn yr ardal ond mae cynllun newydd yn cael ei gyflwyno ond mae'n rhy hir i ddweud eto.'*

*'Dylai wella bellach am fod swyddog cymunedol yr heddlu wedi dechrau.'*

*'Mae'r mentrau plismona gwledig newydd i'w gweld yn drefnus iawn a gobeithio y byddan nhw'n gweithio'n dda.'*

3.4.7 I'r ymatebwyr hynny a deimlai fod y gwasanaeth wedi gwaethygu, y prif resymau oedd cau swyddfydd heddlu a diffyg presenoldeb heddlu. Cynigiodd un ymatebydd esboniad pam roedd yr heddlu yn symud allan o gefn gwlad:

*'Mae wedi mynd yn gyson waeth achos cynnydd sylweddol mewn troseddau yn y prif drefi, yn bennaf o ganlyniad i adael i'r tafarndai agor tan 2-3 y bore. O ganlyniad mae angen mwy o swyddogion heddlu yn y prif drefi, sy'n golygu bod llai o swyddogion ar gael i ddelio â'r trwbl sy'n bodoli yng nghefn gwlad.'*

### 3.5 Bwyd Lleol ac Organig

3.5.1 Mae argaeledd bwyd lleol neu organig yn dod yn fwyfwy pwysig yn ein cymdeithas. Wrth i fwy o bwyslais gael ei roi ar filltiroedd awyr a phlaleiddiaid, mae'n ymddangos bod mwy o ardaloedd gwledig wedi cael cyfle i sicrhau bwyd sydd wedi'i gynhyrchu'n fwy lleol. Ac yn wir, roedd gan y gwasanaeth hwn ganran uchel o bob a deimlai ei fod wedi gwella (32%). Er mai

'Aros yr un fath' oedd y categori mwyaf o hyd, dim ond 3% o bobl oedd yn teimlo bod argaeledd bwyd lleol neu organig wedigwaethygu. Gwelir y canrannau hyn yn Nhabl 2.5.

Tabl 2.5 Newid yn narpariaeth bwyd lleol ac organig dros y 5 mlynedd diwethaf

|                 | Amledd | Canran |
|-----------------|--------|--------|
| Er Gwell        | 105    | 32.5   |
| Aros yr un fath | 178    | 55.1   |
| Gwaethygu       | 11     | 3.4    |
| Yn eisiau       | 29     | 9.0    |
| CYFANSWM        | 323    | 100.0  |

3.5.2 Teimlai 58% o'r ymatebwyr yn y band poblogaeth 4000+ fod y ddarpariaeth bwyd lleol ac organig wedi gwella, a theimlai 42% ei bod wedi 'Aros yr un fath', a doedd neb yn y band poblogaeth yn teimlo ei bod wedi gwaethygu. Yn y band poblogaeth 0 - 400, teimlai 32% o'r ymatebwyr ei bod wedi gwella, teimlai 60% ei bod wedi aros yr un fath a theimlai 8% ei bod wedi gwaethygu.

3.5.3 O edrych ar ddadansoddiad yr ymatebion hyn, tanlinellodd y rhai a gredai ei bod wedi gwella fwy o ymwybyddiaeth o'r cwestiynau, mwy o argaeledd mewn uwchfarchnadoedd, a marchnadoedd ffermwyr fel mannau lle gellir cael y math hwn o gynnyrch.

*'2 siop fferm newydd o fewn 8 milltir, mwy o gynnyrch lleol yn y siop leol.'*

*'Marchnad Ffermwyr ragorol yn [y dref] a bocs o lysiau organig ar gael i'w gludo i'r cartref erbyn hyn.'*

*'Uwchfarchnadoedd bellach yn cynnig mwy o ddewis o fwydydd lleol a chynnyrch organig.'*

3.5.4 Roedd ymatebwyr a deimlai fod argaeledd wedi aros yr un fath yn teimlo bod pris bwyd organig yn rhy uchel, ac nad oedd siopau lleol o reidwydd yn stocio cynnyrch organig neu leol. Er hynny, i gryn dipyn o'r ymatebwyr hyn roedd yna system



dda eisoes i ddarparu bwyd lleol ac organig, a doedd hynny ddim wedi newid. Mae'r ymatebion hyn yn amlygu'r themâu hyn:

*'Ar gael am bris.'*

*'Dim cynnydd amlwg mewn bwyd organig yn cael ei ddarparu gan y siopau lleol e.e. spars, mace, Harry Tuffins. Dim ond y farchnad ffermwyr syn rhoi'r gwasanaeth yma.'*

*'Mae'r siopau lleol a marchnad y sir wedi darparu gwasanaeth da ers blyneddau lawer.'*

*'Mae cynnyrch ffres ar gael yn draddodiadol yn yr ardal wledig yma. Mae llawer yn tyfu eu llysiau eu hunain ac mae'r trigolion yn rhannu eu cynnyrch pan fydd ganddyn nhw ormod at eu hanghenion eu hunain.'*

3.5.5 Dim ond ychydig bach o'r ymatebwyr a deimlai fod y gwasanaeth yn gwaethygu (n=11), ac roedd yn ymddangos bod y rhesymau yn ymwneud â diffyg llwyr argaeledd cynnyrch lleol neu organig. Roedd hyn yn cael ei briodoli i gau'r siopau lleol, neu nad oedd yr uwchfarchnadoedd lleol yn stocio bwyd neu gynnyrch lleol.

### 3.6 Marchnadoedd Ffermwyr

3.6.1 Marchnadoedd Ffermwyr oedd un o'r manau amlycaf a nodwyd ar gyfer cynnyrch lleol neu organig yn y Gymru wledig. Yn y Gymru wledig, roedd gan 41% o'r Cynghorau Cymuned farchnad Ffermwyr.

Tabl 2.6 Marchnadoedd Ffermwyr

|           | Aledd | Canran |
|-----------|-------|--------|
| Oes       | 177   | 54.8   |
| Nac oes   | 132   | 40.9   |
| Yn eisiau | 14    | 4.3    |
| Cyfanswm  | 323   | 100.0  |

3.6.2 Roedd y Marchnadoedd ffermwyr ran amlaf yn cael eu rhedeg bob mis, gyda

bron 30% ohonynt yn cael eu cynnal felly. Gwelir amledd y Marchnadoedd yn Nhabl 2.7.

Tabl 2.7 Aledd Marchnadoedd Ffermwyr

|                             | Aledd | Canran |
|-----------------------------|-------|--------|
| Mwyn nag unwaith yr wythnos | 4     | 1.2    |
| Bob wythnos                 | 17    | 5.3    |
| Bob pythefnos               | 36    | 11.1   |
| Misol                       | 74    | 22.9   |
| Llai na Misol               | 11    | 3.4    |
| Dim Marchnad?               | 181   | 56.0   |
| CYFANSWM                    | 323   | 100.0  |

### 3.7 Ysbryd Cymunedol

3.7.1 Roedd y mwyafrif o bobl yn y Gymru wledig yn teimlo bod eu hysbryd cymunedol wedi aros yr un fath dros y pum mlynedd diwethaf; credai 55% o'r ymatebwyr hynny, teimlai 29% ei fod wedi gwaethygu, a theimlai 11% ei fod wedi newid er g well. Gwelir hyn ar y graff uchod.

3.7.2 I'r ymatebwyr a gredai fod eu hysbryd cymunedol wedi newid er gwell, daeth y newid drwy grwpiau lleol a mwy o ddiddordeb mewn materion cymunedol ymhlith y boblogaeth, fel y gwelir yn y dyfyniadau hyn:

*'Mae'r grwpiau lleol yn ffynnu.'*

*'Mae'n ymddangos bod mwy o bobl yn ymfalchio yn y gymuned. Mae'r Cyngor Cymuned yn gwneud llawer o waith da.'*

*'Mae llawer o grwpiau'n cydweithio er les y gymuned, hynny yw cyngherddau Nadolig, perfformio drama flynyddol, sioeau amaethyddol, parti yn y parc.'*

*'Wedi ennill categorïau yng nghystadleuaeth Pentref y Flwyddyn 2 flynedd o'r bron, 2006, 2007, a digwyddiadau gefeillio pentrefi.'*

3.7.3 Fel o'r blaen, roedd yr ymatebwyr a ddewisodd 'Aros yr un fath' yn cynnig disgrifiadau cadarnhaol a negyddol o'u hysbryd cymunedol. Mae'r ymatebion


gwahanol hyn i'w gweld yn y dyfyniadau isod:

*'Cymuned fach gyfeillgar ac agos atoch sy wedi dysgu byw ar ei hadnoddau ei hun gan nad oes diddordeb gan y cyngor sir.'*

*'Wastad wedi bod yn dda ac yn dal i fod'.  
'Wastad yn wael er gwaethaf ymdrechion y cyngor cymuned a phwyllgor neuadd y pentref.'*

**Ffigur 3.2** Ysbryd cymunedol dros y 5 mlynedd diwethaf

Yn y pum mlynedd diwethaf, ydy'r ysbryd cymunedol yn eich ardal leol wedi newid?



*'Dim gwir newid mewn 5 mlynedd ond mae'n debyg y bydd yn gwaethygu gyda chymaint o bobl 'Saesneg' yn setlo yn yr ardal a'r mwyafrif heb ymuno mewn digwyddiadau lleol'.*

*'Ysbryd cymunedol gwych yn cael ei gadw gan grwp o bobl ddiwyd'.*

*'Mae angen gwella'r sefyllfa. Rydyn ni'n cynnal digwyddiadau diddorol, ond does dim diddordeb gan y bobl leol mewn cyfrannu ac a dweud y gwir dydyn nhw ddim eisiau gadael eu cartrefi'.*

*'Yn draddodiadol mae yna ysbryd cymunedol da ac mae'r mwyafrif o'r trigolion yn gwybod pwy yw eu cymdogion. Mae yna lawer o weithgareddau lleol yn cael eu trefnu gan wirfoddolwyr'.*

3.7.4 Y materion allweddol a godwyd gan ymatebwyr a deimlai fod eu hysbryd cymunedol wedi gwaethygu yn y pum mlynedd diwethaf oedd mewnfyddiad o bobl nad oeddent yn Gymry ac nad oeddent yn siarad Cymraeg, cynnydd ym mhrisiau tai sy'n golygu bod pobl ifanc wedi gorfod ymadael â'r ardal a chau gwasanaethau a

mannau cyfarfod allweddol. Mae'r dyfyniadau isod yn dangos y safbwyntiau hyn:

*'1. Cau'r swyddfa bost 2. cau un o dafarndair pentref 3. bygythiad i ddyfodol ysgol y pentref 4. gwerthu newydd y pentref a'i dymchwel i godi tai 5. datblygiad tai wedi bod ar gyfer tai mawr crand lle mae'r plant yn mynd i ysgol breifat a ddim yn cymathu yn y gymuned'.*

*'Symudodd llawer o bobl i'r ardal heb ddim integreiddio â bywyd y gymuned. Hefyd llawer o bobl yn treulio'r penwythnos yn unig yn y dref erbyn hyn.'*

*'Cau'r swyddfa bost a'r siop leol - dim man cyfarfod lle gall ysbryd cymunedol orosi. 'Nifer cynyddol o dai haf a gosodiadau gwyliau. Trigolion newydd â llai o gysylltiadau â chefnidir y gymuned ond mae ymdrechion codi arian yn targedu'r cartrefi i gyd e.e. at neuadd y pentref.'*

*'Mewnddyfodiaid heb arfer â ffordd pentref bach o fyw - ddim yn cymryd rhan'.*

*'Mewnllifiad o bobl sy'n gallu fforddio prisiau tai yn arwain at newid yn y*

*gymuned am nad yw'r trigolion newydd yn cymryd rhan yn y gymuned'.*

*'Mewnfudo i'r ardal ar raddfa fawr yn andwyo'n cymuned. Yn anffodus mae'n rhaid i bobl ifanc yr ardal symud i ffwrdd i gael gwaith ac yn eu lle nhw rydyn ni'n tueddu i gael pobl hyn sy'n symud i'r ardal i ymddeol sydd heb awydd o gwbl i ymdoddi i'r gymuned'.*

3.7.5 Mae'r dyfyniadau hyn yn dechrau rhoi cip ar y rhesymau pam y credid bod ysbryd cymunedol yn dirywio yn ardaloedd gwledig Cymru. Er hynny, o'r ymatebwyr a oedd yn fodlon ar yr ysbryd cymunedol, gallwn weld bod cynlluniau a'r Cyngor Cymuned yn gallu newid pethau er gwell.

## **CANFYDDIADU ALLWEDDOL**

### **Cludiant cyhoeddus**

Teimlai'r mwyafrif (50%) o'r ymatebwyr fod cludiant cyhoeddus wedi aros yr un fath dros y pum mlynedd diwethaf. Roedd mwy o ymatebwyr yn teimlo ei fod wedi newid er gwell (26.6%), nag er gwaeth (23.4%).

### **Tai Fforddiadwy**

Tai fforddiadwy oed un o'r prif broblemau i'r ymatebwyr. Teimlai 61.4% fod argaeledd tai fforddiadwy wedi gwaethgu dros y pum mlynedd diwethaf, a theimlai 30.9% ei fod wedi aros yr un fath, a oedd ym marn y mwyafrif o'r ymatebwyr yn golygu aros yn wael.

Roedd y pethau a grybwyllwyd gan yr ymatebwyr mewn cysylltiad â thai fforddiadwy yn cynnwys diffyg datblygiadau tai a oedd yn darparu ar gyfer anghenion pobl leol, yn enwedig pobl ifanc a pharau ifanc; mewnlifiad pobl (nad oeddent yn lleol, pobl yn ymddeol); a phrynu tai haf.

### **Yr Heddlu a Phlismona**

Teimlai'r mwyafrif 46.4% o'r ymatebwyr fod yr heddlu neu bresenoldeb yr heddlu yn eu hardal leol wedi aros yr un fath, dim ond 19% a deimlai eu bod wedi gwell a theimlai 31% eu bod wedi gwaethgu.

Yn y band poblogaeth 700 - 1000 y cafwyd y ganran fwyaf o ymatebion negyddol ynghylch yr heddlu, gyda 42.6% o'r ymatebwyr yn teimlo bod y gwasanaeth wedi gwaethgu yn y pum mlynedd diwethaf yn eu hardal leol.

### **Ysbryd Cymunedol**

Teimlai'r mwyafrif (55%) o bobl yn y Gymru wledig fod eu hysbryd cymunedol wedi aros yr un fath yn y pum mlynedd diwethaf; teimlai 29% ei fod wedi gwaethgu a theimlai 11% ei fod wedi newid er gwell.

## ADRAN 4 ARGAELEDD GWASANAETHAU

### 4.1 Rhagymadrodd

4.1.1 Holodd yr adran hon yr ymatebwyr am wasanaethau penodol, eu niferoedd yn yr ardal leol ac i ba ddibenion y maent yn cael eu defnyddio. Unwaith eto, mae'r ymatebion, lle bo modd, yn cael eu defnyddio ar y cyd â data Point X er mwyn rhoi disgrifiad mor fanwl â phosibl o'r ddarpariaeth gwasanaethau.

### 4.2 Mannau Addoli

4.2.1 Roedd 851 o fannau addoli yng Nghymru, ac roedd 563 o'r rhain yn y Gymru wledig. Roedd hynny'n golygu bod 66% o fannau addoli Cymru yn y Gymru wledig.

4.2.2 O edrych ar y Gymru wledig yn ôl bandiau poblogaeth, roedd gan bron pob Cyngor Cymuned ymhob un o'r bandiau fan addoli, yn ôl data Point X. Y band poblogaeth â'r ddarpariaeth isaf o ran y gwasanaeth hwn oedd 500 - 600 gyda 93.2% yn unig â man addoli.

4.2.3 Roedd gan y nifer uchaf o Gyngorau Cymuned ddwy fan addoli, sef 21% o'r cyngorau cymuned. Roedd gan 16% dair man addoli, roedd gan 14% bedair man addoli ac roedd gan 11% un fan addoli.

4.2.4 Yn y band poblogaeth 0 - 400 , roedd gan 34.6% un fan addoli ac roedd gan 34.6% ddwy. Yn y band 4000+ mae'r niferoedd wedi'u gwasgaru'n fwy; roedd gan 15% yn y band poblogaeth hwn 8 man addoli, roedd gan 10% 9, roedd gan 20% 10 ac roedd gan 10% 11. Mae hyn yn dangos bod darpariaeth y gwasanaeth hwn yn dda iawn, a'i fod wedi'i rannu ar draws meintiau gwahanol o boblogaeth yn ôl y galw.

### 4.3 Neuaddau Pentref a Chanolfannau Cymunedol

4.3.1 Roedd 330 o Neuaddau Pentref neu Ganolfannau Cymunedol yng Nghymru, ac roedd 141 yn y Gymru wledig. Mae hyn yn golygu bod bron 43% o'r Neuaddau Pentref neu'r Canolfannau Cymunedol yn y Gymru wledig.

4.3.2 Ar gyfartaledd, roedd gan 24.8% o Gyngorau Tref neu Gymuned neuadd bentref neu Ganolfan Gymunedol. O'u rhannu fesul band poblogaeth, wrth i'r boblogaeth gynyddu mae'r siawns y bydd gan Gyngor Cymuned Neuadd bentref neu Ganolfan Gymunedol yn cynyddu hefyd. Er enghraifft, roedd gan 6.7% o'r Cyngorau Cymuned â phoblogaeth o 0 - 400 Neuadd bentref neu Ganolfan Gymunedol, o'i gymharu â 72% o'r Cyngorau Cymuned hyn yn y band poblogaeth 4000+.

4.3.3 O'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, roedd gan 47.5% un Neuadd Eglwys yn ardal eu Cyngor Cymuned. Doed gan 14.4% ddim Neuadd Eglwys, roedd gan 20.8% ddwy ac roedd gan 14.5% dair.

4.3.4 Roedd gan 60% o'r holl ymatebwyr a atebodd un neuadd gymunedol yn eu Cyngor Tref neu Gymuned. Doedd gan 4.7% ddim neuadd gymunedol, roedd gan 21.6% ddwy ac roedd gan 9.4% dair.

4.3.5 Roedd dibenion Neuaddau Cymunedol mor amrywiol â'r cymunedau lle'r oeddent wedi'u lleoli; o ddrama amatur i ginio Nadolig. Roedd gan Sefydliad y Merched, bingo, clybiau ieuenctid ac amrywio o glybiau a chymdeithasau gysylltiadau â'r manau hyn.

## 4.4 Parcia a Chaeau chwarae

4.4.1 Roedd 2003 o gaeau chwarae yng Nghymru, ac roedd 709 ohonynt yn y Gymru wledig. Mae Tabl 4.1 yn dangos dosbarthiad caeau chwarae ar dras y gwahanol boblogaethau.

Ffigur 4.1 Caeau chwarae yn ôl y boblogaeth

|             | Amlledd | Canran |
|-------------|---------|--------|
| 0 - 400     | 17      | 2.4    |
| 400 - 500   | 20      | 2.8    |
| 500 - 600   | 26      | 3.7    |
| 600 - 700   | 18      | 2.5    |
| 700 - 1000  | 52      | 7.3    |
| 1000 - 2000 | 108     | 15.2   |
| 2000 - 4000 | 141     | 19.9   |
| 4000+       | 327     | 46.1   |
| CYFANSWM    | 709     | 100    |

4.4.2 Doedd gan 7.1% o'r ymatebwyr a ymatebodd i'r cwestiwn ddim cae chwarae yn eu cymuned leol. Roedd gan 53.1% un cae chwarae, roedd gan 18.9% ffau ac roedd gan 10.2% dri. Doedd gan chwarter o'r ymatebwyr yn y band poblogaeth 0 - 400 ddim caeau chwarae yn eu cymuned leol, ac roedd gan y tri chwarter arall un. Yn y band poblogaeth 4000+, does dim cymunedau sydd heb gae chwarae neu sydd hyd yn oed ag un yn unig, ac roedd gan y mwyafrif o'r cymunedau yn y band poblogaeth hwnnw naill ai 3 neu 4 o gaeau chwarae.

4.4.3 Doedd gan 10% o'r ymatebwyr a ymatebodd i'r cwestiwn hwn ddim parc na lle gwyrdd cyhoeddus yn eu cymuned leol; roedd gan 48.6% un parc neu le gwyrdd cyhoeddus; roedd gan 19.5% ddau; ac roedd gan 13.8% dri. Yn y band poblogaeth 0 - 400, doedd gan 30.8% o'r Cynghorau Cymuned ddim parc neu le gwyrdd. Roedd y ffigur hwn yn gostwng wrth i'r boblogaeth gynyddu, ac yn y band poblogaeth 4000+, doedd yr un Cyngor Cymuned heb parc neu le gwyrdd, ac roedd gan 31.8% dri.

4.4.4 Roedd y prif ddibenion a ddisgrifiodd yr ymatebwyr ar gyfer eu parciau neu eu lleoedd gwyrdd lleol yn ymwneud q chwaraeon yn bennaf: rygbi, pêl-droed, criced, cerdded, bowlio ac athletau. Roedd carnifal a gwerthiannau cistiau ceir yn cael eu crybwyll hefyd. Disgrifiodd llawer o'r ymatebwyr y lle fel man gymunedol lle gallai gweithgareddau cymunedol gael eu cynnal, sef gweithgareddau a drafodir yn yr adran isod.

## 4.5 Gweithgareddau Cymunedol

4.5.1 Roedd y lle gwyrdd lleol yn safle ar gyfer nifer o weithgareddau cymunedol megis gwerthiannau cistiau ceir, carnifalau, gyrfeydd chwist, dathliadau Nadolig a Phasg y gymuned. O'u holi am weithgareddau cymunedol yn fwy cyffredinol yn eu hardal leol, rhoddodd yr ymatebwyr amrywiaeth mawr o atebion. Dim ond 7 o'r ymatebwyr a ddywedodd nad oedd eu hardal yn gwneud dim, ac yn aml rhestrai'r gweddiill arlwy drawiadol o ddigwyddiadau ac achlysuron. Ffeiriau a gyrfeydd chwist, partïon a charolau Nadolig, ffestiau mochyn, tân gwyllt a choelcerthi a digwyddiadau codi arian eglwysig oedd y mwyaf cyffredin.

4.5.2 I 81.4% o'r ymatebwyr a ymatebodd i'r cwestiwn, doedd y lefel gweithgarwch cymunedol dim wedi newid yn y pum mlynedd blaenorol. I'r rhai a oedd yn teimlo ei bod wedi newid, awgrymai'r ymatebion ei bod wedi gwella. Disgrifiodd yr ymatebwyr gynnydd mewn cymdeithasau cymunedol, grwpiau yn dod at ei gilydd a lefel da o ymglymiad cymunedol yn gyffredinol.

4.5.3 Roedd ystod eang o wahanol bwyllgorau a chyrrff yn gyfrifol am drefnu gweithgareddau cymunedol. Roedd y gwahanol bwyllgorau a grybwyllwyd yn cynnwys pwyllgor y ffair, pwyllgor neuadd y



pentref, y Cyngor Cymuned, y gymdeithas arddio, a nifer o bwyllgorau ad hoc lleol eraill. Yn ogystal roedd, ysgolion, eglwysi a chapeli, clybiau rygbi, y WI ar YFC i gyd yn amlwg.

## 4.6 Telathrebu

4.6.1 O'r arolwg, roedd gan 60% o'r Cyngorau Cymuned a arolygwyd deledu digidol ac roedd gan 80% o'r Cyngorau Cymuned fand eang.

Tabl 4.2 Telathrebu

| Gwasanaeth                   | Cyngorau Cymuned â'r gwasanaeth |
|------------------------------|---------------------------------|
| Teledu Digidol               | 60.1%                           |
| Band Eang                    | 80.5%                           |
| Rhyngwyd yn yr Ysgol         | 26.3%                           |
| Rhyngwyd yn y llyfrgell      | 30.0%                           |
| Rhyngwyd yn y Swyddfa Bost   | 1.2%                            |
| Rhyngwyd yn Neuadd y Pentref | 6.8%                            |

4.6.2 Dim ond 47% o'r Cyngorau Cymuned oedd â phwyntiau cyhoeddus i gysylltu â'r rhyngwyd mewn ysgol, llyfrgell, swyddfa bost neu neuadd bentref.

Tabl 4.3 Pwyntiau cysylltu telathrebu

| Cyfanswm y Cyngorau Cymuned â phwyntiau i gysylltu â'r rhyngwyd (mewn ysgol, llyfrgell, swyddfa bost neu neuadd bentref) | 153  |
|--|------|
| % o'r CC â chysylltiad mewn o leiaf un lleoliad  | 69.3 |
| % o'r CC â chysylltiad mewn 2 lleoliad   | 26.8 |
| % o'r CC â chysylltiad mewn 3 lleoliad   | 2.6  |
| % o'r CC â chysylltiad ym mhob un o'r 4 lleoliad   | 1.3  |

4.6.3 Yn 69%, roedd gan y mwyafrif o'r Cyngorau Cymuned hyn bwynt cysylltu mewn un o leiaf o'r lleoliadau rhyngwyd cyhoeddus hyn, roedd gan 27% o'r cyngorau gysylltiad mewn dau le, dim ond 3% o'r cyngorau oedd â chysylltiad mewn tri lle, ac yn olaf roedd gan 1% o'r cyngorau gysylltiad ym mhob un o'r lleoliadau rhyngwyd cyhoeddus.

4.6.4 Mae Tabl 4.4 yn dangos dadansoddiad o'r Cyngorau Cymuned sydd â gwasanaeth yn ôl eu poblogaeth.

Tabl 4.4 Telathrebu yn ôl y boblogaeth

|                               | Cyfanswm | 0 - 400 | 400- 500 | 500 - 600 | 600- 700 | 700 - 1000 | 1000- 2000 | 2000- 4000 | 4000 + |
|-------------------------------|----------|---------|----------|-----------|----------|------------|------------|------------|--------|
| Teledu Digidol                | 194      | 7.2%    | 9.8%     | 7.2%      | 6.7%     | 17.0%      | 27.8%      | 14.4%      | 9.8%   |
| Band Eang                     | 260      | 8.5%    | 9.2%     | 9.2%      | 6.9%     | 15.4%      | 27.3%      | 14.2%      | 9.2%   |
| Cysylltiad rhyngwyd cyhoeddus | 153      | 3.9%    | 7.2%     | 5.9%      | 3.9%     | 18.3%      | 22.9%      | 22.2%      | 15.7%  |
| Rhyngwyd yn yr Ysgol          | 85       | 3.5%    | 7.1%     | 4.7%      | 7.1%     | 20.0%      | 23.5%      | 22.4%      | 11.8%  |
| Rhyngwyd yn y llyfrgell       | 97       | 1.0%    | 4.1%     | 4.1%      | 1.0%     | 15.5%      | 20.6%      | 30.9%      | 22.7%  |
| Rhyngwyd yn y Swyddfa Bost    | 4        | 25.0%   | 0.0%     | 0.0%      | 0.0%     | 50.0%      | 25.0%      | 0.0%       | 0.0%   |
| Rhyngwyd yn Neuadd y Pentref  | 22       | 4.5%    | 9.1%     | 13.6%     | 0.0%     | 27.3%      | 31.8%      | 13.6%      | 0.0%   |



## 4.7 Llyfrgelloedd

4.7.1 Roedd 248 o lyfrgelloedd parhaol yng Nghymru, ac roedd 94 ohonynt yn y Gymru wledig. Roedd hynny'n golygu bod 38% o'r llyfrgelloedd parhaol yn y Gymru wledig. Mae Tabl 4.5 yn dangos dosbarthiad llyfrgelloedd fesul band poblogaeth ar draws y Gymru wledig.

4.7.2 Roedd darpariaeth llyfrgelloedd symudol yn bur uchel yn y Gymru wledig, gyda 78.6% o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn ag un yn gweithredu yn eu hardal leol.

**Tabl 4.5 Llyfrgelloedd yn ôl y boblogaeth**

|                 | Canran | Amlledd |
|-----------------|--------|---------|
| 0 - 400         | 0.0    | 0       |
| 400 - 500       | 0.0    | 0       |
| 500 - 600       | 0.0    | 0       |
| 600 - 700       | 2.3    | 1       |
| 700 - 1000      | 3.2    | 3       |
| 1000 - 2000     | 10.1   | 14      |
| 2000 - 4000     | 47.9   | 35      |
| 4000 +          | 82.0   | 41      |
| CyfanswmGwledig | 16.5   | 94      |

## **CANFYDDIADAU ALLWEDDOL**

### **Mannau Addoli**

Roedd 66% o'r mannau addoli yng Nghymru gyfan i'w cael yn y Gymru wledig.

Roedd gan bron pob Cyngor Tref a Chymuned o leiaf un fan addoli.

### **Mannau Cymunedol**

Roedd gan 24.8% o'r Cyngorau Tref a Chymuned neuad bentref neu ganolfan gymunedol. Wrth i'r boblogaeth gynyddu, roed y siawns y byddai un yna yn cynyddu hefyd.

Roedd gan 53.1% o'r ymatebwyr un cae chwarae yn eu hardal leol.

### **Telathrebu**

Roedd gan 60% o'r Cyngorau Tref a Chymuned deledu digidol, roedd gan 80% o'r Cyngorau Tref a Chymuned fand eang.

Dim ond 26.3% o'r Cyngorau Tref a Chymuned oedd â'r rhyngwyd yn eu hysgolion lleol.

### **Llyfrgelloedd**

Mae 38% o holl lyfrgelloedd parhaol Cymru i'w cael yn y Gymru wledig.

Roedd gan 78.6% o'r ymatebwyr lyfrgell symudol yn gweithredu yn eu hardal leol.

## ADRAN 5

## MANNAU CYHOEDDUS A'R AMGYLCHEDD

### 5.1 Rhagymadrodd

5.1.1 Mae'r adran hon yn edrych ar ymwneud y gymuned leol â manau cyhoeddus a'r amgylchedd a sut mae'n eu defnyddio. Yn sgil yr adran flaenorol, bydd yr adran hon yn ystyried cwestiynau ynghylch y cyfrifoldeb dros fannau gwyrdd i'r gymuned a'r amgylchedd.

### 5.2 Mannau Cyhoeddus

5.2.1 Y Cynghorau Cymuned lleol oedd y prif grwpiau a oedd yn gyfrifol am gynnal manau cyhoeddus yn ardaloedd lleol yr ymatebwyr. Roedd yr awdurdod lleol a phwyllgorau lleol hefyd yn gyfrifol am rai manau cyhoeddus. Yn ychwanegol, roedd yna fentrau mwy lleol a oedd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros eu hardal eu hunain, megis pwyllgor y Pentref Taclusaf, a'r pwyllgor hamdden lleol. Gan fod grwpiau gwahanol yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros bethau penodol, gall mater cyfrifoldeb gael ei ddsbarthu'n bur eang, fel y mae'r dyfyniad isod yn ei ddangos:

*“Mae yna bwl bach a rhai manau gwyrdd yn cael eu rheoli gan y cyngor cymuned. Y caeau chwarae /pêl-droed yn cael eu rheoli gan gyngor Bro Morgannwg. Mae coedwig helaeth yn cael ei rheoli gan y Comisiwn Coedwigaeth. Mae rhwydwaith helaeth o lwybrau troed yn cael ei reoli gan Gyngor Bro Morgannwg, Llwybrau'r Fro a landlordiaid gwledig’*

5.2.2 Roedd pwy bynnag a oedd yn gyfrifol am y manau cyhoeddus fel rheol yn gwneud gwaith tebyg. Roedd hyn yn cynnwys torri glaswellt, gofalu am y blodau, cynnal seddi cyhoeddus, torri coed, a gwaith cynnal cyffredinol arall. Ar gyfer cymunedau ar y traeth, roedd y cynnal cyffredinol hwn hefyd yn cynnwys clirio'r traeth a chynnal slipffyrdd.

5.2.3 Gall cymunedau ymgeisio yn naill ai y Pentref Taclusaf neu Brydain yn ei Blodau, sef cystadlaethau i bwysu a mesur sut mae manau cyhoeddus yn cael eu cynnal â'u harddangos. Er hynny, doedd dim llawer o'r ymatebwyr wedi cymryd rhan yn y cynlluniau hyn. Doedd 69.1% o'r rhai a atebodd y cwestiwn ddim wedi cymryd rhan yn y Pentref Taclusaf, ac roedd 88% o'r rhai a atebodd y cwestiwn heb ymgeisio ym Mhrydain yn ei Blodau. Gwelir hyn yn Nhablau 5.1 a 5.2.

Tabl 5.1 Pentref Taclusaf

|           | Amledd | Canran | Canran Ddilys |
|-----------|--------|--------|---------------|
| Na        | 208    | 64.4   | 69.1          |
| le        | 93     | 28.8   | 30.9          |
| Cyfanswm  | 301    | 93.2   | 100.0         |
| Yn eisiau | 22     | 6.8    |               |
| CYFANSWM  | 323    | 100    |               |

Tabl 5.2 Prydain yn ei Blodau

|           | Amledd | Canran | Canran Ddilys |
|-----------|--------|--------|---------------|
| Na        | 220    | 68.1   | 88.0          |
| le        | 30     | 9.3    | 12.0          |
| Cyfanswm  | 250    | 77.4   | 100.0         |
| Yn eisiau | 73     | 22.6   |               |
| CYFANSWM  | 323    | 100.0  |               |

5.2.4 O ddadansoddi'r ffigurau ar sail y boblogaeth, ceir tuedd ddiddorol; mae'r pedwar band poblogaeth cyntaf, o 0 - 400 i 600 - 700 i gyd yn amlygu'r un lefel yn fras o gyfranogiad, gyda rhyw 73% heb gymryd rhan. Er hynny, y band poblogaeth isaf o ran peidio â chymryd rhan yw 4000+ yn achos y Pentref Taclusaf, a 600 - 700 yn achos Prydain yn ei Blodau. Gwelir hyn yn Ffigur 5.1 sy'n dangos cyfranogiad ym Mhrydain yn ei Blodau a'r Pentref Taclusaf yn ôl y boblogaeth.


### 5.3 Chwaraeon a Gweithgareddau

5.3.1 O'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, roedd gan 45% fannau yn eu Cyngor Tref neu Gymuned allai gael eu llogi ar gyfer chwaraeon trefnedig.

5.3.2 O ran y chwaraeon penodol, roedd gan 53.3% o'r ymatebwyr gweithgareddau

Pêl-droed / Rygbi rheolaidd yn eu Cyngor Tref neu Gymuned. Roedd gan 55.4% gemau tafarn rheolaidd. Roedd gan 46.1% ddiwyddiadau celf neu gerddoriaeth yn rheolaidd, roedd gan 30% Eisteddfodau rheolaidd ac roedd gan 43.7% sioe amaethyddol neu sioe arddio reolaidd.

Ffigur 5.1 Cymryd rhan yn y Pentref Taclusaf a Phrydain yn ei Blodau



### 5.4 Ailgylchu

5.4.1 Roedd gan 78.6% o'r Cynghorau Tref neu Gymuned ryw fath o ddarpariaeth ailgylchu. O Dabl 5.3 gallwn weld dadansoddiad y ffigur hwn ar gyfer gwahanol fathau o ailgylchu.

5.4.2 Roedd gan y mwyafrif o bobl gyfle i ailgylchu papur, gyda 73% o'r ymatebwyr, ac wedyn caniau a phlastigau a banc poteli. Mae Tabl 5.4 yn dangos pwy oedd yn darparu'r gwasanaethau hyn.

Tabl 5.3 Cyfrifiad a chanrannau ailgylchu

|           | Banc Poteli | Ailgylchu Dillad | Ailgylchu Papur | Caniau a Phlastigau | Casgliad rheolaidd o ddrws i ddrws | Dim  | Cyfanswm |
|-----------|-------------|------------------|-----------------|---------------------|------------------------------------|------|----------|
| Cyfrifiad | 210         | 148              | 237             | 222                 | 212                                | 69   | 323      |
| %         | 65.0        | 45.8             | 73.4            | 68.7                | 65.6                               | 21.4 | 100      |

**Tabl 5.4 Darparwyr gwasanaethau ailgylchu**

| N = 323                 | Banc Poteli | Ailgylchu Dillad | Ailgylchu Papur | Caniau a Phlastigau | Casgliad rheolaidd o ddrws i ddrws | Dim   |
|-------------------------|-------------|------------------|-----------------|---------------------|------------------------------------|-------|
| Awdurdod lleol          | 58.5%       | 36.5%            | 65.0%           | 62.5%               | 60.7%                              | 9.6%  |
| Cyngor Tref neu Gymuned | 9.9%        | 4.6%             | 9.6%            | 8.0%                | 3.1%                               | 20.1% |
| Corff Gwirfoddol        | 3.1%        | 9.3%             | 7.4%            | 2.8%                | 6.5%                               | 16.7% |

5.4.3 Roedd cyfran yr ymatebwyr a deimlai fod yr ailgylchu yn ddigonol bron yn 50%, fel y gwelir yn Nhabl 5.5.

**Tabl 5.5 Digonolrwydd ailgylchu**

|           | Amledd | Canran | Canran Ddilys |
|-----------|--------|--------|---------------|
| Na        | 152    | 47.1   | 50.3          |
| Ie        | 150    | 46.4   | 49.7          |
| Yn eisiau | 21     | 6.5    |               |
| Cyfanswm  | 323    | 100.0  | 100           |

5.4.4 O Dabl 5.5 gallwn weld bod bron hanner yr ymatebwyr yn teimlo bod y ddarpariaeth ailgylchu'n ddigonol yn eu Cyngor Tref neu Gymuned, a bod hanner yn teimlo nad oedd.

5.4.5 I bobl oedd yn teimlo nad oedd yn ddigonol, mae'n ymddangos mai'r pellter yr oedd angen ei deithio i'r ganolfan neu'r biniau ailgylchu agosaf oedd y brif broblem. Fel y dywedodd yr ymatebydd hwn:

*'Dylai fod safle yn agos i'r pentref at bob math o ailgylchu, fel uchod - ychydig sy'n cael ei wneud am hyn, strategaeth ailgylchu wael iawn i ardaloedd gwledig - rydyn ni'n gorfod myn i ddau safle i ailgylchu'r prif ddefnyddiau.'*

5.4.6 Teimlai'r ymatebwyr mai darparu gwasanaeth o ddrws i ddrws fyddai'r ffordd orau i wella'r gwasanaeth, gan sicrhau bod

y casgliadau hynny'n ddibynadwy a chyson.

*'Hoffwn i weld y Cyngor Sir yn gwneud mwy i hybu ailgylchu, a dylen nhw ddarparu gwasanaeth casglu o ddrws i ddrws yn lle disgwyl i bobl deithio filltiroedd i'r ganolfan ailgylchu agosaf.'*

5.4.6 Mae Tabl 5.6 yn dangos dadansoddiad a oedd yr ymatebwyr yn teimlo bod yr ailgylchu lleol yn ddigonol neu beidio. O hyn gallwn weld bod mwy o ymatebwyr yn teimlo bod yr ailgylchu'n briodol wrth i'r boblogaeth gynyddu hyd at 500 - 600. Roedd yr ymatebwyr a gredai fod yr ailgylchu'n ddigonol yn fwyaf tebyg o fod yn y band poblogaeth 2000 - 4000.

**Tabl 5.6 Digonolrwydd ailgylchu yn ôl y boblogaeth**

|             | NA    | IE    | CYFANSWM |
|-------------|-------|-------|----------|
| 0 - 400     | 18    | 9     | 27       |
|             | 66.7% | 33.3% |          |
| 400 - 500   | 15    | 15    | 30       |
|             | 50.0% | 50.0% |          |
| 500 - 600   | 10    | 16    | 26       |
|             | 38.5% | 61.5% |          |
| 600 - 700   | 13    | 7     | 20       |
|             | 65.0% | 35.0% |          |
| 700 - 1000  | 30    | 22    | 52       |
|             | 57.7% | 42.3% |          |
| 1000 - 2000 | 36    | 45    | 81       |
|             | 44.4% | 55.6% |          |
| 2000 - 4000 | 17    | 22    | 39       |
|             | 43.6% | 56.4% |          |
| 4000 +      | 13    | 14    | 27       |
|             | 48.1% | 51.9% |          |
| CYFANSWM    | 152   | 150   | 302      |
|             | 50.3% | 49.7% |          |

## 5.5 Canllawiau Tai

5.5.1 O'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, dywedodd 82% nad oedd canllawiau ar sut i gynnal a chadw tai yn eu hardal leol.

5.5.2 I'r rhai a deimlai fod yna ganllawiau, y prif faterion oedd bod y tai mewn ardal gadwraeth, bod yna ganllawiau ar gyfer eiddo rhestredig neu fod tai yn cael rhestr o liwiau ar gyfer eu waliau allanol. Roedd ardaloedd yn y Parciau Cenedlaethol yn gorfod dilyn y rheoliadau a osodid gan awdurdod y Parc Cenedlaethol.

## 5.6 Rhandiroedd

5.6.1 Dim ond 16.3% o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn oedd â rhandiroedd yn eu hardal leol. Roedd gan ychydig dros un rhan o dair o'r ardaloedd lleol restr aros am randiroedd. Mae Tabl 5.7 yn dangos dosbarthiad rhandiroedd yn ôl y boblogaeth, a gallwn weld bod gan 54.5% o'r band poblogaeth 4000+ randiroedd.

## 5.7 Hysbysfwrdd, Cylchlythyr a Gwefan

5.7.1 Roedd gan bron 91% o'r ymatebwyr hysbysfwrdd cyhoeddus yn eu Cyngor Tref neu Gymuned. Yn y band poblogaeth 0 - 400, roedd gan 100% o'r Cynghorau Tref neu Gymuned hysbysfwrdd, a syrthiai hyn i 88% o'r rhain yn y band poblogaeth 4000+.

5.7.2 Roedd cylchlythyrau wedi'u dosbarthu'n eang ac roedd gan 63% o'r ymatebwyr gylchlythyr / Papur Bro yn cael ei ddosbarthu yn ardal eu Cyngor Tref neu Gymuned. Nid oedd y boblogaeth yn effeithio ar ymatebion gymaint yn achos cylchlythyrau; roedd gan 70% o'r band poblogaeth 0 - 400 un, a 65% o'r band poblogaeth 4000+. Yn 77.3%, nid oedd y mwyafrif o'r cylchlythyrau neu'r Papurau Bro yn cael eu cynhyrchu gan y cyngor.

5.7.3 Roedd gan 42.4% o'r Cynghorau Tref neu Gymuned a ymatebodd wefan gymunedol, ac o'r rhain roedd 59.6% yn cael eu rhedeg gan y Cyngor.

**Tabl 5.7 Darpariaeth rhandiroedd yn ôl y boblogaeth**

|             | 0 - 400 | 400- 500 | 500- 600 | 600- 700 | 700- 1000 | 1000- 2000 | 2000- 4000 | 4000+ | CYFANSWM |
|-------------|---------|----------|----------|----------|-----------|------------|------------|-------|----------|
| Rhandiroedd | 0.0%    | 1.0%     | 0.0%     | 0.0%     | 5.1%      | 14.1%      | 25.3%      | 54.5% | 100%     |

## **CANFYDDAIDAU ALLWEDDOL**

### **Mannau Cyhoeddus**

Roedd Cyngor Tref neu Gymuned 30.9% o'r ymatebwyr wedi cymryd rhan yn y Pentref Taclusaf. Roedd 12% wedi cymryd rhan ym Mhrydain yn ei Blodau.

Roedd gan 45% o'r ymatebwyr fannau yn eu Cyngor Tref neu Gymuned a allai gael eu llogi ar gyfer chwaraeon trefnedig.

### **Ailgylchu**

Roedd gan 78.6% o'r Cyngorau Tref neu Gymuned ryw fath o ddarpariaeth ailgylchu.

Ailgylchu papur ie dyn cael ei ddarparu amlaf, mewn 73.4% o'r Cyngorau Tref neu Gymuned.

Wrth i'r boblogeth gynyddu, roedd y boddhad ar y ddarpariaeth ailgylchu yn cynyddu hefyd.



## ADRAN 6 LLES

### 6.1 Rhagymadrodd

6.1.1 Bydd yr adran hon yn cyflwyno data am ddarpariaeth ac argaeledd lles a gwasanaethau lles yn ardaloedd lleol yr ymatebwyr. Cymerir bod lles yn golygu'r gwasanaethau neu'r systemau sy'n hybu llesiant cyffredinol pobl, yn gymdeithasol ac yn economaidd, megis swyddfeydd cynghori, clinigau galw i mewn neu gynlluniau a gefnogir gan y wladwriaeth.

### 6.2 Cyngor a Chymorth Lles


6.2.1 Teimlai'r mwyafrif o'r ymatebwyr y byddai pobl yn eu cymuned leol yn teithio i swyddfa agosaf Cyngor ar Bopeth i gael cyngor, cymorth neu ddarpariaeth lles. I'r

mwyafrif o'r ymatebwyr roedd hynny'n golygu teithio i'r dref agosaf.

6.2.2 Roedd y Cyngor Sir, y Feddygfa a'r Siop Pob Peth i gyd yn cael eu defnyddio i gael gwybodaeth ac i ddarparu cymorth a chyngor. Roedd neuadd y sir a'r llyfrgell hefyd yn fannau lle gallai pobl gael cymorth a hawliau lles.

6.2.3 Roedd gwybodaeth am les yn cael ei dangos yn y cymunedau lleol drwy ddefnyddio hysbysfyrddau a thrwy drefnu ei bod ar gael yn y neuadd leol neu yn y swyddfa bost. Roedd taflenni yn aml yn cael eu gosod mewn meddygfeydd, yn neuadd y dref, y llyfrgell a siop y pentref.

**Ffigur 6.1 Digonolrwydd yr wybodaeth am incwm yn ôl y boblogaeth**




6.2.4 Wrth i boblogaeth eu Cyngor Tref neu Gymuned gynyddu, roedd pobl yn debycach o deimlo bod argaeledd gwybodaeth am les yn annigonol; teimlai 72% yn y band poblogaeth 0 - 400 fod argaeledd gwybodaeth yn annigonol. Roedd hyn yn cymharu â 44.7% yn y band poblogaeth 2000 - 4000 a deimlai nad oedd yn ddigonol. Gwelir hyn ar y graff isod.

6.2.5 Er mwyn gwella'r ddarpariaeth yn eu hardal leol, awgrymodd yr ymatebwyr gael siaradwyr gwadd a chyfarfodydd cyhoeddus yn eu neuadd bentref neu eu neuadd gymunedol i ateb cwestiynau, anfon taflenni at y Cynghorau Cymuned a allai gael eu hanfon wedyn i'r aelwydydd, a gwelliannau cyffredinol mewn pethau fel gwybodaeth ar y rhyngwyd a hysbysfyrddau.

6.2.6 O'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, teimlai 60.7% fod y ddarpariaeth lles yn ddigonol yn ardal eu Cyngor Tref neu Gymuned. O rannu hyn fesul band poblogaeth, gallwn weld gwahaniaeth trawiadol rhwng cymunedau o wahanol

feintiau: teimlai 70% o'r band poblogaeth 0 - 400 nad oedd yna ddarpariaeth ddigonol ar gyfer lles, o'i gymharu â 25.9% o'r band poblogaeth 400 - 500 (yr uchaf a'r isaf). Gwelir hyn yn Ffigur 6.2

**Ffigur 6.2 Digonolrwydd y ddarpariaeth lles yn ôl y boblogaeth**



6.2.7 Teimlai'r ymatebwyr 'nad oedd y ddarpariaeth lles yn cael digon o arian ai bod yn annigonol, a bod angen iddynt ddod o hyd i anghenion y gymuned a chydweithredu â'r arbenigwyr yn eu gwahanol feysydd, a chael grant i ddarparu'r gwasanaeth hwn'.

### 6.3 Cyfleusterau Lles

6.3.1 Roedd gan bron 40% o'r Cynghorau Tref neu Gymuned ryw fath o gyfleuster i bobl hyn, megis canolfannau dydd, manau galw i mewn, neu ddyddiau agored mewn cartrefi preswyl.

6.3.2 O Dabl 6.1, gallwn weld bod gan y poblogaethau isel ddarpariaeth cystal neu well o ran y math hwn o gyfleuster â rhai o'r bandiau poblogaeth uwch.

**Tabl 6.1 Darpariaeth cyfleusterau i bobl hyn yn ôl y boblogaeth**

|             | Na    | Ie    | CYFANSWM |
|-------------|-------|-------|----------|
| 0 - 400     | 15    | 8     | 23       |
|             | 65.2% | 34.8% |          |
| 400 - 500   | 29    | 6     | 35       |
|             | 82.9% | 17.1% |          |
| 500 - 600   | 17    | 7     | 24       |
